

ECO'R WYDDFA

Rhif 119

TACHWEDD 1986

Pris: 20c

APÊL

Yng nghorff y papur yn fisol, bron, ceir adroddiadau am wahanol weithgareddau codi arian. Mae "apêl" yn air cyffredin iawn bellach, ac nid yw'r rhifyn hwn yn ddim gwahanol. Mae llythyrwyr yn apelio am arian i Steddfod Bro Madog; mae lluniau ac adroddiadau am apêl Sganiwr i Ysbyty Gwynedd; mae Hywel Gwynfryn yn apelio am gefnogaeth ariannol i Ddiwrnod y Plant Mewn Angen; ac y mae yr Urdd yn lansio apêl i drueiniaid gwlad Mali.

Ond nid apêl ariannol sydd gennym ni olygyddion a gweithwyr eraill cysylltiedig â'r papur. Y cyfan sydd arnom ei angen yw CYMORTH — cymorth i ddod a straeon diddorol i'n sylw ni, i blygu ac i ddosbarthu'r papur. Yn bennaf oll, mae rhai swyddi allweddol yn parhau heb eu llenwi — yn enwedig swydd TREFNYDD PLYGU. Diolchwn i Edward Elias am ofalu bod y trefniadau wedi eu gwneud hyd y Nadolig. Ond wedi hynny? Does neb bellach yn gofalu am dudalen "Eco'r Ifanc". Pwy wnaiff? Siawns nad oes rhywun yn y fro yn barod i helpu i ysgwyddo'r baich.

DIWYLLIANT BRO EISTEDDFODAU LLANRUG A GWAUN GYNFI



Dewi Tomos (chwith) a Dafydd Evan Morris, enillwyr y Fedal Ryddiaith a'r Gadair yn Eisteddfod Llanrug a gynhaliwyd ar Hydref 11eg yn Neuadd Ysgol Brynrefail.

Mae Dewi Tomos yn hen gyfarwydd ag ennill tlysau — mae eisoes wedi ennill yn y Genedlaethol ar fwy nag un achlysur; ond mae'n enw cyfarwydd i'r rhai sy'n dilyn y byd chwaraeon hefyd, gan ei fod yn enillydd aml mewn gwahanol rاسus rhedeg. Enillodd y Fedal yn Llanrug am sgwennu cyfres o deithiau cerdded yng Ngwynedd.

Dyma gadair gyntaf Dafydd Evan Morris o'r Colomendy ger Dinbych, sy'n dilyn cwrs meddygaeth ym Manceinion. Testun y gerdd a enillodd iddo'r Gadair oedd "Llwybrau".

Rhoddwyd canmolïaeth uchel i'r ddau gan y beirniad, y Prifardd Moses Glyn Jones. Canmolodd hefyd y seremoni, a oedd yng ngofal disgyblion hŷn Ysgol Brynrefail. Am y canlyniadau llawn gweler tudalen 8.



Teithiodd Bardd Cadeiriol Eisteddfod Gwaun Gynfi o fro'r Genedlaethol i hawlio'i gwobr nos Sadwrn, Hydref 25ain. Mrs Megan Lloyd Ellis o Abergwaun a gipiodd y gadair am gerdd ar y testun "Diwydiant". Roedd pedwar ymgeisydd am y gadair, sef rhodd i'r eisteddfod gan Gwmni Sling, Deiniolen. Y beirniad oedd Mr Selwyn Griffith, Penisarwaun, ac aelodau o'r Urdd yn Neiniolen oedd yn gyfrifol am y seremoni. Daeth Mrs Morgan Lloyd Ellis i sylw'r byd barddol ddwy flynedd yn ôl pan ddaeth yn ail am y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr Pont Steffan.

DIRGELWCH



Pen George III ar un ochr a'r hen Britannia ar yr ochr arall gyda'r dyddiad 1770 i'w weld yn eglur.

Daw llawer o ddarnau arian i'r amlwg yn y llefydd rhyfeddaf, rhai ohonynt yn werthfawr iawn, ac eraill yn ddim ond hen geiniogau. Dyna feddyliodd Mr George Jones, Allt Goch, Ceunant, Llanberis pan ddaeth ar draws 'hen geiniog' yn yr ardd. Ar ôl glanhau'r pridd oddi arni, sylwodd ar y dyddiad: 1770. Roedd yr 'hen geiniog' hon yn hen iawn! Dros ddau cant oed!

Ond ai ceiniog ydyw? Credwn fod ceiniogau George III wedi eu bathu o 1797 ymlaen (yr hen rai trwm a elwid yn "cartwheels"). Ni fathwyd ceiniogau George III ym 1770 o gwbl. Tybed felly, ai dimai ydyw? Roedd dimeiau'n cael eu bathu ym 1770. Dyna farn yr "Eco". Ond a wyddoch chi'n wahanol?

DIFROD

Rhoddwyd cryn sylw dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf i'r malurio dibwrpas sy'n digwydd ym mhentrefi'r fro. Mae cynghorau lleol wedi gwario, ail-wario a thrydydd wario ar drwsio cysgodfannau bws a biniau sbwriel a ddifrodwyd. Mae cwynion yn dod yn rheolaidd am falu poteli llefrith a seddau cyhoeddus. Ond mae'n ymddangos bellach fod y difrodi yn cael ei anelu at adeiladau.

Maluriwyd ffenestri yng Nghapel Tan y Coed yn ddiweddar, ac yn y llun gyferbyn, darlunir y difrod a wnaethpwyd i ffenest lliw yn Eglwys Mihangel, Llanrug. Amcangyfrifir fod y gost o atgyweirio'r ffenestr hon tua £500 — ac nid hon mo'r ffenest gyntaf i'w thorri yn yr eglwys. Deallwn fod y troseddwyd wedi cael mynediad i'r eglwys, ond nad oedd dim wedi ei ddwyn.

Ar llyn o bryd ni wyddys a oes cysylltiad rhwng y difrod hwn a'r fandaleiddio di-synnwyr fu'n digwydd yn ddiweddar.



**PLYGU'R ECO
RHIFYN RHAGFYR**
Nos Iau,
Tachwedd 27ain
am 6.00 o'r gloch
**FESTRI CAPEL COCH
LLANBERIS**

ECO'R WYDDFA

RHIF 119
TACHWEDD

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL AC ERTHYGLAU: Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug. (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Amranwen Lynch, Gwyddfor, Penisarwaun (Llanberis 870575).

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun (Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs. Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Pen-y-Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis. (871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST: Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd: **BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Itan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glaraon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Tal-y-bont. (Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrig-y-drudion, Nant Peris. (871327)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9 Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU:

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
TACHWEDD 27ain
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
TACHWEDD 18fed
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

CHWARELWYR IWERDDON

Annwyl Olygydd,

Tybed os y câf ofyn am gymorth eich darllenwyr? Derbyniais lythyr yn ddiweddar oddi wrth gyd-weithiwr yn Amgueddfa Werin Ulster, yn trafod peth o hanes chwareli llechi Swydd Down, gan ganolbwyntio ar chwareli Tullycavey a Greyabbey. Bu'r chwareli yma yn rhai digon pwysig ar un adeg, ac fe ddenwyd ambell Gymro o Wynedd yno: mae'n siŵr fod perchnogion y chwareli yn falch o brofiad chwarelyddol y Cymry, ac yn fodlon talu cyflogau atyniadol iddynt.

O safbwynt Llanberis, fodd bynnag, diddorol oedd deall bod yna gysylltiad rhwng y pentref a'r ddwy chwarel yma. Y chwarelwr cyntaf i fynd yno o Lanberis oedd Huw (neu Hugh) Williams, a aeth i Ulster yn y 1850'au cynnar, ac a briododd ferch leol, Catherine Semple, yn yr Eglwys Anglicanaidd ym mhentref Greyabbey yn 1855. Tad Huw Williams oedd Richard Williams, eto o Lanberis, ac mae yna ryw faint o dystiolaeth sydd yn awgrymu bod Richard Williams yn swyddog neu yn farciwr yn un o chwareli cylch Llanberis. Dengys tystysgrif priodas Huw Williams mai "slate dresser" oedd ei alwedigaeth yntau yn chwareli Swydd Down. Dychwelodd i Lanberis, gyda'i wraig a'i deulu ifanc, yn 1858, ond cadwyd cysylltiad gyda'r teulu-yng-nghyfraith, ac felly y daeth staff Amgueddfa Ulster o hyd i nifer o luniau hynod ddiddorol o chwareli cylch Llanberis, wedi eu trysori â'u gwarchod gan deuluoedd yn Ulster.

Yn amlwg, felly, fe hoffwn wybod mwy am Huw Williams, am Catherine, ei wraig, ac am y teulu cyfan. Oes un neu fwy o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa'n gyfarwydd â hanes y teulu, neu yn gwybod rywbeth am gysylltiad rhwng teuluoedd y cylch yma a theuluoedd yn Ulster yn y ganrif ddiwethaf? Petaech cystal â'm ffonio, neu ysgrifennu ataf, yna fe drosglwyddaf yr hanes i ofal fy nghyd-weithiwr yn Ulster, a danfon peth o'r hanes i'w gyhoeddi yn eich papur.

Gan ddiolch yn fawr am eich cymorth,

Yr eiddoch yn gywir,
Dafydd Roberts,
Amgueddfa Lechi Cymru,
Y Gilfach Ddu,
Llanberis.

GŴYL DDRAA Y PENTAN
Eleni eto yn gysylltiedig â Gŵyl Ddraa y Pentan, papur bro Dyffryn Conwy a'r Glannau, bydd cystadleuaeth ysgrifennu drama fer, addas ar gyfer ei pherfformio mewn Gŵyl Ddraa papurau bro.

Y beirniad fydd Mrs Nansi Pritchard, Sarnau, a cynigir gwobr o £50 a Thlws y Pentan i'w gadw am flwyddyn.

Ceir manylion pellach gan yr ysgrifenyddes, Ann Jones, Pant y Carw, Llanrwt, Gwynedd, LL26 OPW. Ffôn: Llanrwt 640503.

APÊL BRO MADOG

Annwyl Olygydd,

Mae rhai ardaloedd o fewn cylchrediad eich Bapur Bro o fewn talgylch Eisteddfod Bro Madog a tharged ariannol wedi ei nodi yn ôl poblogaeth y cymunedau. Hyd yn hyn, braidd yn siomedig yw'r ymateb a gan fod yr amser yn cerdded ymlaen yn gyflym, tybed a oes modd gwneud apêl trwy eich papur bro am gefnogaeth ariannol i'r Eisteddfod Genedlaethol.

Buasem yn falch pe sefydlid Bwyllgorau Apêl yn yr ardaloedd hynny sydd heb ddangos diddordeb hyd yma.

Sylweddolir fod gofynion ariannol trwm ar bob ardal ond 'rwy'n sicr y cytunwch fod yr Eisteddfod yn Wyl unigryw inni'r Cymry ac yn werth ei chadw.

Byddai cyfeillion Bro Madog yn gwerthfawrogi'n fawr pe bai Eco'r Wyddfa yn tynnu sylw y darllenwyr, ac yn arbennig y rhai hynny sydd a diwylliant a pharhâd yr iaith Gymraeg yn agos at eu calon at y cais hwn o gael cyfeillion i sefydlu Bwyllgorau Apêl.

Dyma darged rhai ardaloedd sydd o fewn eich cylchrediad:
Cymuned Llanberis—£2,500
Cymuned Waunfawr—£1,750
Cymuned Llanrug—£2,000

Hyderaf y cawn eich cefnogaeth,
Yn gywir iawn
W R Jones,
Ty'n y Banc,
Llandeudwyn,
Talsarnau,
Gwynedd.

CEFNOGWYR Y GYMRAEG

Cefnogwyr y Gymraeg
Annwyl Olygydd

Cyfarfod Blynnyddol Rhanbarth
Gwynedd o CEFN

Hoffwn ar ran Cefn wahodd caredigion y Gymraeg i Gyfarfod Blynnyddol Cefn yng Ngwynedd, nos Wener, Hydref 31 am 7 o'r gloch yn Ystafell Gyfarfod yn adeilad yr Institiwt yng Nghaernarfon.

Mae croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

Dalier heb laesu dwylo
Yr eiddoch yn gywir,
Eleri Carrog
Ysgrifennydd Gweithredol
Cefn
8 Rhes Segontium
Caernarfon.

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

GWAG SYMERA

Annwyl Olygydd,

Dydw i ddim yn bwriadu croesi cwils hefo SYLWEBYDD, sydd wedi newid ei enw y mis yma. Mi fasa yn fy nghuro i ar wneud pastiche yn unig, ac mae hi'n amlwg na ŵyr o fawr ddim am reolau elfenol llenyddiaeth. Un peth yw creu rhyddiaith o dan ffugenu; peth gwahanol iawn yw cyfeirio at berson, yn enwedig yn gyhoeddus mewn print, a hynny o gysgod y llwyni. A dyma'r tro cynta i mi sylwi ar yr arferiad yma yn cael ei feithrin yn yr Eco. Chlywais i ddim sôn fod y golygyddion wedi gorfod crefu ar ohebwr i roi ei enw o'r blaen— a hynny ar goedd.

Beth bynnag, mae o wedi chwyldroi fy mywyd i. Os yr oedd 'na un neu ddau diarffordd, heb wybod pwy oedd YGWALCH ar ôl yr holl flynyddoedd o gyfrannu, mae nhw'n gwybod bellach. Ond nid dyna fy mhrydar i. Beth wna i rwan? Roedd o'n enw mor hwylus i'w ddefnyddio pan oeddwn i'n cael fy nal yn rhoi fy llaw ar betha yn y siopa neu gael genod i drwbwl.

Os yw talentau'r croniclwr yma yn ei gyfyngu i ddatblygu ei thesis i gyfeiriad mor ddibwrpas, pwy sy'n mynd i roi sylw i'w syniadau pan mae'n paldaruo am y 'mewnfyddion sy'n dinistrio ein bodolaeth...' ac yn y blaen. Y fo ydy'r cynta i fabwysiadu eu dulliau llechwraidd nhw. Am na geisith o efelychu'r 'Cymry ifanc pybur' 'na mae o'n gymeryd arno eu hedmygu mor fawr; rheiny sydd yn datgan eu barn yn ddiofn, ac yn gweithredu arno fo yn yr amlwg gefn dydd golau.

Ond mae o wedi creu hwyl i amryw mae'n rhaid. Mi ddaeth 'na rhyw hen swadi i fy ngwynab i y diwrnod o'r blaen, yn mynnu mai fo oedd SYLWEBYDD. Wn i ddim oedd o mewn diod a'i peidio. (Mae SYLWEBYDD yn potio medda fo), ond choelia i byth iddo fo ddeud ar rhyw sgwrs ei fod o wedi bod i fyny 'ma rhyw gyda'r nos hefo rhen wraig yn stagio fy mwthyn i. (Mae ganddyn nhw wynab i rhywbath, rai ohonyn nhw wedi mynd). Ond pwy ydw i i nabod ci oddi wrth ei gynffon. Mae pawb isio bod yn rhywun. Os mai hocedwr oedd o, mae 'na fwy o ruddin o'i gwmpas o na'r macoi ei hun; mae hynny arni hi.

Yn ffyddlon
John E Williams

Mae'r ddadl hon bellach yn crwydro o'r prif bwyntiau a wnaed yn y llythyr gwreiddiol. Cadwer at y ffeithiau o hyn ymlaen. (Gol.)

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

PAPURAU PAWB I'R MELINAU ER MWYN MALI

Yn ystod y misoedd nesaf fe fydd aelodau'r Urdd fel nythaid o forgrug, yn igamogam ar hyd a lled strydoedd wrthi'n brysur yn casglu tunnelli o bapur wast. Byddant yn cludo'r papur i'w storio yng nghanolfan yr Adran neu'r Aelwyd, cyn ei drosglwyddo i rwydwaith o ganolfannau mwy ym mhob rhanbarth. Bydd y mynydd o bapur yn ei dro yn cael ei werthu i Fasnachwyr Papur Wast ar hyd a lled y wlad. Dyma waith sy'n golygu llawer o amser ac ymdrech, a diferion o chwys – ond i gyd er mwyn ein cyd-ddyn, sef trigolion un o wledydd tlataf un y byd – gwlad Mali – sydd wedi ei lleoli ar ffin ddeheuol anialdir y Sahara. Ceir disgrifiad byw o'r wlad a'i phobl yn llyfr Stephen Griffith "Teithio'r Sahel", o Wasg y Lolfa, 1986.

Bu'r Urdd mewn trafodaethau â mudiad Cymorth Cristnogol sydd â prosiectau pendant i'w cefnogi yma: Cynllun Iechyd, Gweithdy'r Anabl a Chynllun Gwared Sbwriel yn nhref Timbuktu.

Ers blynnyddoedd bu cynlluniau i gefnogi'r bobl i oresgyn effeithiau eu newyn a'u tlodi. Ni fu'r cynlluniau hyn mor llwyddiannus ag y gobeithiwyd. Heddiw mae'r prosiectau a gynnigir yn fwy ymwybodol o angen y bobl, am mai hwy eu hunain sy'n argymhell y cynlluniau. Gwêl Cymorth Cristnogol y prosiectau hyn fel arwyddion gobaith pendant i drigolion gwlad sydd wedi dioddef am flynyddoedd maith.

Os ydych chi yn barod i gynnig eich gwasanaeth mewn unrhyw ffordd byddwn yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Mae'r Urdd yn gofyn am bedwar math o bapur.

- 1) Papurau newydd a papur o'r un ansawdd, e.e. 'Radio Times'
- 2) Cylchgronnau o unrhyw fath
- 3) Papur Swyddfa
- 4) Papur Compiutar wast ("Print-outs")

Medrwyd roi help llaw i'r gangen leol drwy helpu i ddiolchi'r gwahanol fathau o bapur a'i bacio'n fwndeli, cadw llwythi o bapur i'w gasglu ganddynt, neu os oes gennych adeilad gwag, ei gynnig fel canolfan iddynt storio'r papur.

Os ydych yn gweld eich ffordd yn glir i gynnig unrhyw fath o gymorth byddwn yn ddiolchgar iawn petaech yn cysylltu â Swyddog Datblygu lleol yr Urdd.

Swyddog Datblygu eich ardal yw Jên Williams, Swyddfa'r Trefnydd, Yr Aelwyd, 3-5 Stryd yr Eglwys, Caernarfon, Gwynedd. Rhif ffôn: 0286 3117

MORUS Y GWYNT O BLAID CND CYMRU

Roedd llawer o sôn am y gwynt, y glaw a'r mwd ar faes Eisteddfod Abergwaun eleni ond er bod y tywydd wedi achosi lleihad yn y nifer o bobl a fu'n crwydro'r maes bu'r gwyntoedd cryfion o fantais i CND Cymru.

Erbyn 9 o'r gloch bore Sadwrn roedden ni wrthi'n llenwi'r 200 cyntaf o falwns y Ras Heddwch yn barod i'w rhyddhau am 11 am., gan y Prifardd Jams Niclas.

Erbyn 30 Medi, y dyddiad cau ar gyfer anfon labeli'r balwns yn ôl, dychwelwyd cyfanswm o 154, sef bron 10 y cant o'r 1624 o falwns a ryddhawyd rhwng Sadwrn 2 Awst a Sadwrn 9 Awst. Roedd gwobr i brynwr y cerdyn ar y balwn a aeth bella a gwobri'r un a ddychwelodd y cerdyn ynghlwm wrtho. Y gwyntoedd cryfion i gyfeiriad y dwyrain a enillodd y dydd oherwydd i Wlad Pŵyl yr aeth y balwn a enillodd y Ras Heddwch. Prynwyr y balwn oedd Non Ifans: 102 Heol Ninian, Y Rhâth, Caerdydd a bydd Non yn derbyn gwobr o £25. Anfonwyd y cerdyn yn ôl o Wlad Pŵyl gan Henryk Wypych 05-100 Wotonin, Zagoscinec 98B (yn ymyl Warsaw). Bydd Henryk hefyd yn derbyn sicc am £25. Daeth y cardiau eraill yn ôl o:



Y Prifardd Jams Niclas yn rhyddhau'r 220 cyntaf o falwns.

Dwyrain yr Almaen – 1
Gorllewin yr Almaen – 5
Yr Isel Diroedd – 3
Yr Alban – 4
Ynys Manaw – 1
Lloegr – 68
Cymru – 71
Cyfanswm – 154

Er mai cario neges heddwch oedd labeli'r Ras Heddwch dengys yn glir fel yn achos Chernobyl, y gall llygredd ymbelydrol ledaenu yn bell ac yn gyflym trwy'r awyr.

"RARGIAN FAWR!"



Pwy sy'n siarad ar y ffôn gyda Ann Evans o Benisarwaun? Cewch yr ateb wrth wyllo Rargian Fawr ar S4C nos lau, Tachwedd 13eg am 7.30

Bydd Gari Williams hefyd yn cyflwyno tîm o actorion sydd wedi bod o amgylch Cymru yn tynnu coes y cyhoedd. Yn y rhaglen gyntaf ymunwch â nhw am brotest ym Mangor.

DIWRNOD Y PLANT MEWN ANGEN

'Y Papur Bro Cenedlaethol' – dyna fel y disgrifiwyd Helo Bobol dro yn ôl, a dyna pam 'dwi'n gofyn i'ch papur chi ein helpu ni i'w helpu nhw.

Tachwedd yr unfed ar hugain ydi'r dyddiad pwysig – Diwrnod y Plant Mewn Angen. Ar y diwrnod hwnnw fe fydda' i'n agor fy ngheg ar yr awyr am bum munud ar hugain wedi chwech y bore, ac yn ei chau hi tua hanner nos. Yn ystod y deunaw awr fe fyddwn ni'n mynd ati i geisio perswadio'r gwrandawyr i dyrchio'n ddwfn i'w pocedi a rhoi yn hael i'r plant sydd mewn angen. OND 'dwi am gychwyn yr ymgyrch 'rwan yn eich papur chi.

Beth am i chi fynd ati i godi arian i helpu'r plant drwy gynnal: nofio noddedig, ffair sborion, ocsiwn cist-car, noson lawen, neu farathon snwcer. Mae na gant a mil o wahanol ffyrdd o godi arian ac yn ystod y mis nesa fe fasa Helo Bobol yn falch iawn o roi hysbys i'ch syniadau chi. Yna ar yr unfed ar hugain o Dachwedd – diwrnod y Plant Mewn Angen – fe gewch chi ddeud wrth bawb ar yr awyr sut yr



aeth petha', faint 'da chi wedi gasglu, a rhoi cyhoedduswydd i'ch papur yr un pryd.

Mae'r Papur Bro Cenedlaethol angen cymorth eich papur bro chi i roi cymorth i'r plant mewn angen. Wnewch chi'n helpu ni? Cysylltwch efo Helo Bobol BBC, Llandaf, Caerdydd.

Diolch yn fawr.

Hywel Gwynfryn

DERWYN HUGHES

Treflys
PENISARWAUN

Ffôn Llanberis
870945

Am
nenfydau
a waliau
siapus

Am

1986 – 1987 CWMNI DRAMA LLANBERIS

yn cyflwyno

Dwy Gomedï Fer

"Gwyn y Gwêl" gan William Owen
a "John Huws Drws Nesa"
gan Cynan

Os am fwy o fanylion cysylltwch â
Mrs Helen Sharp,
28 Maes Padarn,
Llanberis, Gwynedd.

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir
YMDDEURAD: Drwg iawn gennyf adael enw Mr Wilbert Davies, Rock Terrace (gofalwr Ysgol Dolbadarn) allan o'r rhifyn diwethaf o'r Eco. (Ni wnaed hyn yn fwrriadol) Mae Mr Davies wedi bod yn absennol o'i waith ers tua mis. Dymunwn adferiad buan i chwi a gobeithio eich gweld n ôl yn fuan yn eich gwaith.

YMDDEOL: Mae Mr Cledwyn Parry, Glan-y-Don, Stryd Fawr, yn ymddeol o'r siop ar ddiwedd y mis yma ar ôl 40 mlynedd. Mae Mr Parry yn flaenor yng Nghapel Coch ac yn Preswylfa cyn hynny. Rwyf wedi cael llawer awr hapus yn ei gwmni yn cynnal y Band of Hope, ac yn trefnu Eisteddfodau a the parti Nadolig y plant. Yr oedd bob amser yn barod ei gymwynas. Dymunwn bob hapusrwydd ac iechyd i chwi ar eich ymddeoliad ac hefyd yn eich cartref newydd. Dymunwn yn dda hefyd i Mrs Williams, eich mam-yng-nghyfraith yn y cartref newydd.

DIOLCH: Dymuna Mr Cledwyn Parry ddiolch i'w gwsmeriaid i gyd, yn hen a newydd, am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd. Gobeithio y cariwch ymlaen i gefnogi ei ferch Valerie.

LLONGYFARCHIADAU: Dymunwn longyfarch Nia Owen, 40 Dol Elidir a Nia Griffiths, Llwyn Piod ar gael eu dewis i chwarae yn nhim pêl-rwyd Gwynedd.

DAMWAIN: Dymunwn adferiad i'r rhai canlynol:-

Miss Nia Owen, 40 Dol Elidir, sydd wedi brifo ei choes; Gwenfair Wakeham, Stryd Fawr wedi torri ei garddwn; Colin Owen, 33 Dol Elidir sydd wedi brifo ei ben glin a yn disgwyl mynd am driniaeth; Linda Pitts, 53 Dol Elidir sydd wedi torri ei throed.

GENEDIGAETH: Dymunwn yn dda i Amanda a Peter Welsby ar enedigaeu eu merch fach Stephanie Louise, chwaer i David George. Hefyd i Iorwen a Dewi ar enedigaeu eu mab bach cyntaf, Kenny Lee.

BEDYDDIO: Bedyddiwyd Sonia Louise, merch fach Maldwyn ac Annwen Hughes, 5 Blaen Ddôl yng Nghapel Coch, dydd Sul, Hydref 5ed. Bedyddiwyd Emma Louise, merch fach Alan a Glenda Williams, Stryd Fawr yn Eglwys Llanddeiniolen, ddydd Sul, Hydref 19.

LLONGYFARCHIADAU: i Gareth Williams, Tŷ Du Road ar ddathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar Hydref 16. Dymuniadau gorau i ti yn yr RAF.

Hefyd i Karen Williams, Rock Terrace ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar Hydref 18.

I Miss Carys Jones, merch Mr a Mrs

Wyn Jones, Capel Coch Road, ar lwyddo yn ei arholiad a phasio i fod yn R.G.N.

I Dylan Jones, 16 Dol Elidir a enillodd y wobwr gyntaf am wneud llun. Mae Dylan yn ddisgybl yn Ysgol Pendalar, Caernarfon ac fe driodd gystadleuaeth gwneud llun oedd wedi ei threfnu gan C.E.G.B. ar y pen-wythnos Diwrnod Agored ym mis Medi. Cafodd Dylan anrheg o "Personal Cassette" a diwrnod gyda'i fam, ei dad a'i frawd Darren, i lawr y twnel mawr a chael cyfle i bwysu botwm i ddechrau un o'r "turbines" i droi ac wedyn mwynhau pryd o fwyd wedi cael ei drefnu gan y C.E.G.B. Da iawn Dylan!

DYMUNIADAU DA: Dymunwn yn dda i Beverey Pitts ar ei gwaith newydd yn Ysbyty Eryri.

Hefyd i Bethan Jones, 40 Avon Terrace ar ei gwaith newydd yn Plas Pen Gwaith.

Ac i Bethan Jones ar ddechrau ei gyrfa o ddwy flynedd yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor.

DYMUNIADAU GORAU i Eleri T Ellis, 12 Rhes y Cae, Llanberis, sydd yn dilyn cwrs C.Q.S.W. yng Ngholeg Prifysgol Cymru.

DYMUNIADAU GORAU i Mr T S Roberts, 83 Maes Padarn, sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

PEN\$BLWYDD HAPUS i Twm John yn 60 oed.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i'r canlynol:

Mr. Jack Evans, 2 Bryniau Gerddi; Mr Owen Lewis, York Terrace sydd yn mynd am driniaeth law-feddygol o dro i dro i'r ysbyty; Mrs Gwenda Harding; Mrs Margaret Griffiths; Clara Roberts, Anfield, Stryd Fawr; Mrs K Evans, 24 Dol Eilian, sydd wedi bod yn wael gartref; Mr Edgar Williams, Cambrian Terrace; Mrs Susie Roberts, Dol Eilian; Mrs Nancy Jones, 79 Maes Padarn; Mr John Halstead, 26 Stryd Goodman; Lliwen Huws, Stryd Fawr; Fiona Prydderch, Rhes y Cae; Mr Alan Parry, Stryd Turner; Mr Percy Jones, Plas Coch, Stryd Fawr; Mrs Alice Hughes, Hafan, Olgra Terrace; Mr Stanley W Griffiths, 32 Dol Elidir; Mr Eddie Lennon, Plas Tirion.

BINGO: Nos Wener, Hydref 10fed, cynhaliwyd Bingo yng Ngwesty Gwynedd, a'r elw at yr henoed. Gwnaed swm o £158. Diolch i Mrs Betty Hughes, Stryd Yr Wyddfa, Moray Roberts, Stryd Newton, Brenda Pyke, Olgra Terrace, Mrs Carys Hughes, Yankee Street a Mrs Mair Roberts, Warden Street am eu gwaith caled i wneud y Bingo yn llwyddiant bob mis. Heb help y rhai hyn ni fuasai y noson yn bosibl.

Diolch i Mr Wil Roberts (Wil Korea) am ddod yn gyson bob mis i alw.

Bydd Bingo yng Ngwesty Gwynedd ar Dachwedd 14eg, a'r elw at blant dan anfantais meddyliol (Cangen Treborth R.D.A.) Os oes rhywun eisiau cyfrannu at y "raffi", cysyllter ac Eirlys Ellis, 12 Rhes y Cae.

DIOLCH: Dymunai Miss Bethan Jones, 40 Avon Terrace, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau, am y llw cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn un-ar-hugain oed.

Dymuna Dilys ac Arfon Phillips, Coed y Glyn, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llw o gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Ruddem.

Dymuna Amanda a Peter Welsby, i Glanrafon Terrace, Nant Peris ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau yn Llanberis am y llw cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach, hefyd i Mrs Jennifer Hughes, Stryd y Dŵr am ei gofal cyn yr enedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU: I Lily a'i gŵr (merch Mr Owain Williams (Now Nant)) Stryd Goodman, ar enedigaeu eu efeilliaid bach. Dymunwn y gorau i chwi.

SGANIWRAMA: Yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, nos Iau, 9fed o Hydref, cafwyd noson o hwyl at y sganiwr yng ngofal Ffylliaid Llanberis a chriw Penisarwaun. Cafwyd noson fendigedig yn llawn hiwmor a sbri. Diolch yn fawr i'r criw ac hefyd i Arwel am ei gyfraniad yntau. Y mae y ddawn ganddo i dynnu'r hwyl allan o'r gynulleidfa. Colled fawr gafodd pawb a arhosodd adref.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i Dilys Mai Hughes sydd yn Ysbyty Gwynedd yn cael triniaeth law-feddygol ar ei chefn.

DIOLCH: Dymuna Gareth a Dilys "Bod Awen" Cambrian Terrace, ddiolch yn fawr i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd.

Cyngor Cymdeithas Llanberis
Dylai ceisiadau am gymorth ariannol i wahanol fudiadau o fewn yr ardal fod yn llaw'r Clerc, Islwyn Jones, Y Garn, Bryn Moelyn, Llanrug, erbyn dydd Llun, Tachwedd 24ain.

JOHN LEWIS BACH gan Goronwy Owen

Roedden ni i gyd ei hofn. Cofiwch, roedd hi mor ddiniwed ag oen bach, a wnaeth hi erioed harm i neb, ond roedden ni ei hofn hi'r un fath. Clywem hi yn dod i lawr Allt Ty Croes o Eilian Terras, ac wedi gafael yn y bêl, safem yn un rhes o fechgyn yn erbyn y wal, fel defaid mud. Ond byddai hi yn siarad hefo hi'i hun, bob cam o'r ffordd a phasio heibio heb gymryd sylw ohonom o gwbwl.

Ym amlwg, credai hi fod ganddi gymdages yn cyd-gerdded â hi, cymdages oedd yn gwrando'n astud ar ei sgwrs un ochrog. Ni wyddem ni blant beth i wneud ohonni, yn enwedig gan ei bod bob amser yn gwisgo braidd yn hen-ffasiwn.

Y rheswm am hyn oll. Fe laddwyd ei hunig fab yn y Rhyfel Byd Cyntaf - ei hunig fab. Digwyddodd cyffelyb i eraill. I Mrs Lewis, roedd y galar a'r gofid yn ormod, ac fe giliodd.

Cerddai John Lewis heibio hefyd, rhyw rowlio cerddad ar ei goesau byrion hefo'r dynion adra o'r chwarel, ei dun bwyd yn glos o dan ei fraich. Yna, ymhen rhyw awr, troedia i lawr yn ôl, y tro yma a'i lyfr emynau o dan ei gesail, ar ei ffordd i'r seiat.

Dyn bychan o gorff oedd o, ond dyn bach mawr drybeilig. Cerddoriaeth oedd ei fywyd; canu, codi canu, beirniadu canu, arwain canu, a'r cyfan ynghlwm yn y cysegr.

ar achlysur eu priodas. Diolch i bawb.

PRIODAS ARIAN: Dymuniadau da i Mr a Mrs Hugh Griffiths, Llainwen ar ddathlu eu priodas arian ym mis Tachwedd.

PRIODI: Dymuniadau da i Menai Wyn Davies a William Ffostyn Griffiths ar achlysur eu priodas yn Eglwys Sant Padarn, dydd Sadwrn, Hydref 18.

PEN-BLWYDD HAPUS i Olive May Owen, 1 Maes Delyn, oddi wrth Noel, Linda, Huw, Andrew, Christopher a Darren bach, Ann a'r plant, Nerys, Peter, Mam, Llinos.

DIOLCH: Dymuna Mrs Irene Pritchard, 7 Park Avenue, Llandudno (gynt o Ioanfa, Olgra Terrace), ddiolch i'w chyfeillion a'i theulu yn Llanberis a Llanrug am yr anrhegion, cardiau a'r blodau a dderbyniodd tra yr oedd yn yr ysbyty yn Llandudno.

Dymuna Mrs Clara Roberts "Anfield", ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr.

Dymuna John Pritchard, 11 Stryd Ceunant, ddiolch i bawb a'i gefnogodd i redeg Ras yr Wyddfa er budd Spina Bifida. Casglodd swm o £64.70

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf ar ôl y gwyliad haf o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fedi 25, dan arweiniad Mrs Hannah Jones.

Cydymdeimlwyd â Mrs Betty Arfon Owen a'r theulu yn eu profedigaeth fawr o golli ei hannwyl fab. Rhoddodd Mrs Davies, Llanrug adroddiad manwl iawn o weithgareddau A.G.M. yn yr Albert Hall, Llundain ym mis Mehefin.

Ein gwraig wâdd oedd Mrs Pat Jones, Brynrefail, yn siarad ac yn dangos Crefftau Cymreig. Y gwestwagedd oedd Mrs Dorothy Thomas, Mrs Nan Owen a Mrs Helen Morris. Diolchwyr i Mrs Davies, Mrs Jones ac i'r gwestwagedd gan Mrs Jan Davies a Mrs Dilys Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Rhona Thomas.



STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis **871210**

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthgy
Hefyd yn Siop

FFYNN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

DATHLU PEN-BLWYDD: Llongyfarchiadau ar ei phen-blwydd yn 90 oed i Mrs Angharad Griffiths, Elidir, Ael-y-Garth, Caernarfon. Fe'i ganwyd ar Hydref 5ed, 1986 yn Haulfryn, Deiniolen Terrace, Brynrefail, yn un o ferched Thomas a Mary Foulkes. Bu yn briod â'r diweddar William Griffiths, a oedd yn enedigol o Ddeiniolen o deulu Tan yr Henffordd, am dros hanner can mlynedd. Mae iddi pump o blant, dau ohonynt wedi cartrefu yng Ngorllewin Awstralia. Bu yn byw am gyfnod yn yr Alban lle bu ei gŵr yn athro ysgol cyn dychwelyd i Gaergybi ac yna ymddeol i Gaernarfon.



Penblwydd hapus Mrs Griffiths

CYMDEITHAS Y BEIBLAU: Yng nghyfarfod blynyddol y Gymdeithas a gynhaliwyd eleni ddydd Sul, Hydref 5ed yn Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun, cymerodd y canlynol o aelodau Ysgol Sul Brynrefail M.C., dan ofal Mrs Carol Houston, ran mewn eitem lafar ar y thema: 'Y Trydydd Byd': Rhian Davies, Marian Jones, Nicola Houston, Lynette Ruchy, Einir, Catrin ac Owain Gwyn, Joanne, Eira Wyn, Maria a John Evans. Hyfforddwyd y plant gan Mrs Ifanwy Jones.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cafodd aelodau'r gangen noson ddifur a llwyddiannus iawn yn y Sioe Gynnyrch a gynhaliwyd yn y Waunfawr, nos Wener, Hydref 3ydd. 'Roedd pob aelod wedi bod wrthi'n brysus dros ben a thrwy hynny, sicrhawyd fod Cangen Brynrefail yn derbyn tystysgrif am eu llwyddiant yn y gwahanol adrannau. Nos Lun, Hydref 20fed, yng nghyfarfod y mis, rhoddodd Mrs Jennie Roberts, Glandwr adroddiad cryno iawn o

hanes ei gwyliau yn Portugal. Diolchwyd iddi gan Mrs Rhian Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Mai Jones a Mrs Blodwen Hughes, a thalwyd diolch iddynt gan Mrs Gwyneth Williams. Enillydd y raffl a gyflwynwyd gan Mrs Betty Owen oedd Mrs Jennie Maxwell.

CLWB Y MAMAU: Cyfarfu'r aelodau nos Lun, Hydref 13eg pryd y cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs Peggy Davies, Ceris am ei gwaith yn hyfforddi gweinyddesau yng ngwlad Israel. Yn ystod y cyfarfod croesawyd aelodau newydd i'r gangen. Darparwyd lluniaeth gan Mrs Jackie Jones a Mrs Moira Ellis. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Audrey Roberts a'r enillydd oedd Mrs Elsie Owen. Bydd y cinio Nadolig eleni i aelodau'r gangen ynghyd ag aelodau Sefydliad y Merched yng Ngwesty'r Prince of Wales. Pris y cinio twrci fydd £3.75, a bydd y trefnydd, Mrs Helen Jones, 5 Trem Eilian, yn derbyn enwau'r rhai sy'n bwriadu mynd.

NOSON TÂN GWYLLT: Nos Fercher, Tachwedd 5ed, dan nawdd Pwyllgor Gweithgareddau'r Pentref, dethlir Noson Tân Gwyllt yn y Cae Chwarae gyda choelcerth ac arddangosfa tân gwyllt. Bydd y golecerth yn cael ei thanio am 6 o'r gloch. Dewch yn llu i fwynhau noson o gwmni aeth ddifur a hwyl ac i flasw tatws trwy'u crwyn a 'coleslaw' a ddarperir yn garedig iawn gan aelodau Clwb y Mamau.

TAITH GERDDED NODDEDIG: Dan nawdd Clwb y Mamau a Sefydliad y Merched, llwyddwyd i godi swm sylweddol o arian sef £198.75 tuag at Gronfa Keith Jones, 'Rallt, gyda'r daith gerdded nodedig brynhawn Sadwrn, Medi 13eg. Trosglwyddwyd y siec i fam Keith, Mrs Dorothy Jones, nos lau, Hydref 23ain.



Cyflwyno siec i Gronfa Keith.

DIOLCH: Dymuna Mrs Nerys Wynn Roberts, Murmur y Nant, Caernarfon (merch Mr a Mrs G Hughes, Bryn Parc) ddiolch i nifer o gyfeillion a anfonodd ddymuniadau da iddi yn dilyn triniaeth a gafodd yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. De deall for Nerys yn gwella yn foddhaol iawn.

YN EISIAU GOFALWR

i Adeiladau Eglwys M.C. Brynrefail. Manylion i'w cael gan ysgrifennydd yr Adeiladau: Mr D G Ellis, Gwledfa (Llanberis 871223)

YN EISIAU

Rhywun i fod yn gyfrifol am y Croesair. Cysyllter â'r golygydd.

YMGYRCH GENEDLAETHOL Y GALON

Archebwch eich cardiau Nadolig Cymraeg mewn pryd. Dewis gwell nag erioed eleni. Cysylltwch â Mrs Mai Parry, Bryn Heli, Llanrug (Ffôn: Caernarfon 4385)

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands "Glanrafon" (872275)

YR YSGOL GYMUNED

THEATR GWYNEDD: Bu plant yr Adran Gynradd yn ymweld â Theatr Gwynedd yn ddiweddar lle y gwelwyd perfformiad rhagorol gan gwmni "Molecule Theatre". Mae'r cwmni hwn yn arbenigo ar gynhyrchu dramâu ar themâu gwyddonol. Bu eu perfformiad y tro hwn yn gymorth mawr i ddeall pwli, sgrîw ac echel ymysg pethau eraill!

ORIEL ERYRI: Tybed faint ohonoch fu'n ymweld ag Oriel Eryri'r haf yma? Roedd gŵr yno dros wyliau'r haf yn gwneud offerynnau cerdd gan ddefnyddio defnyddiau lleol fel coed a llechen. Wil Menter oedd ei enw, a chawsom gyfle i'w fenthyg yn yr ysgol am brynhawn ddiweddar mis Medi. Daeth a chasgliad rhyfeddol o offerynnau gydag ef a chawsom gyfle i'w chwarae - profiad braf iawn oedd cael tiwn o lechen las.

GWRACHOD: Bu 'mam' y gwarchod bach annwyl Ceridwen, Rala Rwdins a Rwdlan yn ein gweld yn Ysgol Cwm-y-Glo yn ddiweddar. Daeth Angharad Tomos atom i dreulio prynhawn yn sgwrsio am ei llyfrau poblogaidd. Bu'n dweud wrthym sut y bydd yn ysgrifennu'r storïau a chreu'r darluniau i'r llyfrau.

CWMNI'R FRAN WEN: Bu'r Cwmni Theatr mewn Addysg yn yr ysgol ganol mis Hydref yn perfformio Codi'r Galon. Cynlluniwyd y cynhyrchiad hwn gyda chymorth Uned Addysg Iechyd Gwynedd, a deliwyd â materion yn ymwneud â iechyd yn gyffredinol. Roedd y perfformiad fel arfer yn raenus a diddorol - fel y bydd pob sioe gan y cwmni dawnus hwn.

MYFYRWYR: Cychwynodd Miss Gillian Jones o Lanberis ar ei chyfnod yma fel myfyriwr y Cwrs Gweinyddesau Meithrin yn y Coleg Technegol ym Mangor, a bu Miss Gwenno Jones Parry o Lithfaen yma am bythefnos. Bydd hi'n cychwyn ar gyfnod ymarfer o chwe wythnos yma ym mis Tachwedd. Croeso i chi, a gobeithio y gwnewch fwynhau eich cyfnod yng Nghwm-y-Glo.

ADRAN URDD PENLLYN: Cafwyd cyfarfod cyntaf y tymor ddydd Llun, 13eg o Hydref. Daeth y Swyddog Datblygu newydd yn Eryri, Jên Williams atom i roi 'gemau potes' i ni a chafwyd hwyl arbennig. Etholwyd Dafydd Idriswyn yn Arweinydd, Deiniol Evans yn Ysgrifennydd a Gwyn Hefin Jones yn Drysorydd. Y cyfarfod nesaf fydd Noson Calan Gaeaf. Diolch o galon i bawb a gyfranodd pan fu cyfeillion yr Urdd o gwmpas Cwm-y-Glo a Brynrefail gyda blychau casglu dydd baneri'r Urdd yn ddiweddar.

CLWB POBOL Y CWM: Cychwyn tymor newydd oedd cyfarfod pnawn lau, Medi 18. Wedi ymddiddan â'n gilydd am ysbaid aed ymlaen i wneud trefniadau gogyfer tymor y gaeaf. Etholwyd y swyddogion presennol i weithredu am dymor ychwanegol, sef Llywydd: Mr Llew Hughes, Ysgrifennydd: Mrs H M Hughes; Trysorydd: Miss E Hughes. Yn dilyn y te cafwyd sgwrs fer a diddorol gan Mr Richard Roberts a'r ei wyliau yng Ngogledd yr Alban. Rhoddwyd y te gan Miss E Hughes a Mrs E Hughes.

Dydd Mawrth, Medi 30 aeth yr aelodau ar wibdaith trwy fwllch Llanberis ac ymlaen i Ddolgellau ac

aros yno i gael pryd o fwyd, yna ymlaen i'r Bermo i fwynhau awel y môr ac wrth gwrs, siopau. Dychwelyd yn ôl hyd ffordd y glannau a chyrraedd pen y daith wedi mwynhau diwrnod pleserus.

Cyfarfu aelodau y Clwb dydd lau, Hydref 2 dan lywyddiaeth Mr Llew Hughes. Croesawodd y wraig wâdd, sef Miss Amelia Jones, Caernarfon. Rhoddodd Miss Jones sgwrs hynod ddiddorol ar ei thaith i Rwsia. Roedd yn meddu ar ddawn arbennig i ddisgrifio amgylchiadau neilltuol a'i disgrifiadau o'r golygfeydd a'r adeiladau yn fyw. Nid oedd yn fyr o hiwmor iach pan yn sôn am droeon trwstan. Diolchwyd iddi gan Mr R H Parry. Rhoddwyd y te gan Mrs Watkins a Mrs Chick a'r raffl gan Mrs R H Parry.

Hoffem bwysleisio nad yw aelodaeth wedi ei gyfyngu i'r Henoed yn unig, mae croeso i unrhyw un sydd wedi ymddeol yn gynnar ymaelodi.

TABERNACL: Wedi bron ddwy flynedd ar gau oherwydd diriwiad yr adeilad, mae'r gwaith atgyweirio bron wedi ei gwblhau. Bydd y Parch Gwynfor Williams, Llanberis sydd wedi derbyn gwahoddiad i ofalaeth y Tabernacl yn ymweld â'r aelodau yn y dyfodol agos. Hoffai'r Swyddogion ddiolch am gyfraniadau haelionus yn ystod y gwasanaethau Diolchgarwch.

DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd gwasanaethau diolchgarwch yn Eglwys Sant Gabriel ar 18fed a'r 19eg o Hydref. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Parch Aled Jones Williams yn y bore. Am ddau o'r gloch cynhaliwyd Gwasanaeth y Plant, gyda phlant yr Ysgol Sul i gyd yn cymryd rhan. Am gadw yr Ysgol Sul yn ddi-goll am flwyddyn cafodd Terry Williams "Bryn" anrheg gan y Rheithor. Ar ddiwedd y gwasanaeth cyflwynodd y Rheithor gloc i Mrs Watkins, oddi wrth aelodau a phlant yr Eglwys, am ei gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd. Yr organyddes oedd Miss Judith Orntt. Cynhaliwyd y gosper am chwech a'r pregethwr gwâdd oedd y Parch R E Williams, Llanwnda. Yr organyddes oedd Miss Ceridwen Hughes.

Nos Lun am saith cynhaliwyd y gosper. Yr oedd y gwasanaeth dan ofal y Parch Richard Jones, Deon Gwlad.

Nos Fawrth, cynhaliwyd y Ffair Gynhaef yn yr ysgol gymuned.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Rose Fowler, Bodlonddeb yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Mr Owen Jones yn Ne Cymru, hefyd Mrs Jill Harris, Llwyni, hithau wedi colli ei mam.

LLONGYFARCHIADAU i Dilwyn Morris, Tan-y-Graig a Neil Rowlands, Glanrafon ar gyrraedd eu pen-blwydd yn un-ar-hugain.

DIOLCH: Dymuna Neil ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn un-ar-hugain.

PÊL-DROED DAN 16: Ennill fu hanes y tîm yn eu gêm yn erbyn Deiniolen o 4 gôl i 1, gyda Paul Grant yn sgorio 2, Dafydd Jones, 1 ac Andrew Roberts 1.

CLWB Y MAMAU A MERCHED IFANC: Cyfarfu'r aelodau nos Fercher, Hydref 1af, pryd y daeth arddangoswraig 'Kaleidoscope' i roi sgwrs ar Gemau a Choluro. Rhoddwyd y te a gwobr y raffl gan Mrs Margaret Williams a Mrs Ann Jones. Ni fydd cyfarfod mis Tachwedd. Bydd y cyfarfod nesaf Rhagfyr 3ydd. Taer erfynnir am gefnogaeth yr aelodau yn y cyfarfod hwn neu bydd y clwb yn dod i ben.

SINFFI

Mi fuo fi'n crwydro'r Gororau unwaith efo bag a phisar bach, yn begio dŵr poeth a chysgu mewn teisi gwair a'r wyrcws. Roedd 'na ddigon o waith i'w gael yr adeg honno yn y gerddi a'r caeau, pan yr oedd rhywun yn teimlo fel ei wneud o, ond faswn i ddim yn ei gymeradwyo fo i neb, fel ffordd ddelfrydol o fyw erbyn hyn, ac mi rois i'r gora iddi fo oherwydd yr achos lleia.

Roeddwn i yn y Gelli Gandryll rhyw noson Guto Ffowc yn chwilio am le i roi fy mhen i lawr, a dyma haid o blant yn dechra taflu tân gwyllt ar fy ôl i. Mi neidiais ar lori yn mynd i gyffiniau Pershore, ac yn y diwadd mi ges hyd i das wair i gysgu ynddi, ond mi ges fy nal yno yn y bora gan rhyw hen fachgan a mwstas ganddo fo fel brws beudy.

Ond hen siortyn digon digri dano oedd o erbyn gweld. Roedd o wedi bod hefo'r 'yeomanry' yn rhyfal Transvaal, ac yn ei ddydd, roedd o'n gallu sgleisio lemons wedi eu crogi yn un rhes ar linyau, hefo 'sabre' oddiar gefn march yn carlamu. Roedd ganddo fo rhyw hen garafan yn y gadlas, a dyma fo'n deud wrtha i, y baswn i'n cael byw yn honno, caniatu y baswn i'n treulio'r gaeaf yn tocio ei berllanau siedar o. Ac yno yr arhosais i, ac erbyn hynny roedd o wedi cymryd ata i, welsoch chi erioed y fath beth, ac yn fy mwydo i hefo gêm a chig moch cartra fel taswn i newydd ddychwelyd o wlad y cibau, ac mi fyddwn i'n cael menthyg ei wn gora fo i saethu. Roedd yna das wellt fawr wrth ochr y fan i gadw gwynt y Dwyrain draw, ond yr oedd yn rhaid i mi fod yn hynod o ofalus hefo canwylla.

Yn y gwanwyn, dyma'r Sipsiwn yn dechra dwad i lawr lon Droitwich yn rhes hefo'i carafanau ceffyla yr adeg honno. Roedden nhw yn gaeafu ym Birmingham, y Kaulo Gav, (y dref ddu); chwadai nhwtha. Roedden nhw yn gweithio yn y caeau yn deuluoedd, o'r nain i'r babi lleiaf, yn hel y cnydau fel yr oedd rheiny yn aeddfedu. Un o'r bobl rheiny oedd y Coopers.

Roeddwn i wedi bod yn hel pŷs yn eu plith nhw unwaith ac wedi cael mynediad at eu tannau fin nos. Mae gen i rhyw dynfa at bobl fel yna 'rioed, byth ers pan fyddai'r Boswells yn dwad i Lon Bach y Rhydau erstalwm.

Fel ymhob llwyth, roedd yno genod, ac un ohonyn nhw oedd Sinffi Cooper. Roedd hi tua 'run oed a fi. Roedd hi'n dalach na Sipsi gyffredin, ac yn osgeiddig. Pan fyddai hi'n sefyll wedi llwyr ymlacio, 'roedd hi 'run fath a cherflun o Hen Roeg. Credais ei

bod h'n ddistaw bach mewn cariad hefo fi, ac yr oeddwn innau hefo hithau. Ond doedd wiw i ni gario'r peth ymhellach. Mi fasa yn cael ei throï o'i llwyth a finna yn cael cyllall yn fy senna.

Ond mi es hefo hi a chriw ohonyn nhw i ffair Caerwrangon unwaith, ac ar ôl iddyn nhw werthu eu ceffyla a dweud ffortiwn a gwneud eu hunain yn bla yn y siopa, dyma nhw yn fy hudo i i barlwr cefn yr Hen Ffesant a fy meddwi fi ar seidar gellyg. Aethant wedyn a fi adra ar waelod car fflat fel bwndal o foron, a Sinffi yn sefyll hefo un droed o bobty i mi, yn gyrru'r farlan fel Buddug yn dwad adra o ryfal. Roedden nhw wedi fy ngollwng i ar swp o wellt yng nghongl y gadlas, a phan ddois i ataf fy hun, roedd y froets fleur-de-lys oeddwn i'n wisgo i gofio mam, wedi diflanu. Wel, beth wnewch chi? chwadai yr hen yeoman. "Be' wyt ti'n ddisgwyl wrth ymhel â'r fath bobl?"

Ond yr oeddwn i'n dal yn llawia mawr hefo Sinffi. Mi fydda yn dwad i'r gadlas gyda'r nos, ac yr oedd gen i rhyw hen deipiadur mawr erbyn hynny, ac mi fydda hi wrth ei bodd yn gwneud ei henw hefo fo, er ei bod hi'n hollol anllythrennog fel arall. A rhyw noson mi ddaeth â basgedaid o bŷs ac eistedd ar y stepan yn y machlud yn eu deor nhw. "Dwyt ti ddim wedi dweud fy ffortiwn i eto," medda fi wrthi yn ddigon difeddwl. "Fedra i ddim brawd."

"Am beth?"
"Mi rydw i yn perthyn i dy ffortiwn di."

"Ond fedri di ddim gadael dy lwyth a gwadu dy waed."

"Ddim yr ochr yma frawd, ond yr ochr draw. Mi fyddi di a minnau hefo'n gilydd yn y fan honno. Wedi iddyn nhw losgi fy mhetha i; wedi i mi fynd yn hen, hen, mi fydda i wedi mynd at y Dŵfel, ac mi fydd yna ddwy seren newydd ar ael y wybren. Chdi a fi fydd rheini brawd, hefo'n gilydd am byth. Mae ein heneidia ni yr un fath wyth ti'n gweld."

"Wyt ti'n meddwl Sinffi?"
"O mi rydw i'n siwr brawd."

Welais i ddim o Sinffi am wythnos neu ddwy wedyn. Roedd y llwyth yn gweithio yn nes i Evesham, ond roedd y gwersyll yn yr un lle o hyd.

Ond rhyw gyda'r nos daeth ei chwaer ieuanc i'm gweld, gyda chenad. Adroddodd honno fel pader.

"Dos at y dderwen fawr yn Spetchley Wood ar godiad y lleuad nos yfory."

Roedd yna nefoedd o le yn Spetchley Wood ym mis Gorffennaf. Roedd hi'n union fel tasa chi'n mynd i gadeirlan fawr werdd, a'r adar yn canu'r Te Deum drwy'r dydd yn ddigyfeiliant. Y noson honno fodd bynnag cefais brofiad amheuthun iawn. Roedd y lleuad ar godi pan gyrhaeddais yr hen dderwen. O leuad haf roedd hi'n llachar rhwng y dail. Roedd bôn yr hen dderwen yn dywyll, ond wrth graffu sylwais ei bod yn braffach nac arfer. Roedd rhywun yn pwyso arni.

"Sinffi," sibrydais. "Chdi sydd yna?"

"Paid a dwad yn agos ataf i," meddai hi.

"Beth wyt ti isio?"

"Dim ond dwad i weld y lleuad."

Roedd ei gwisg laes ffair amdani. Pwysais innau ar goeden arall.

"Mae'r lleuad yn gry' wyddost ti," medda hi wedyn. "Mae hi'n hael yn rhoi ond yn gryfach yn tynnu, fel mae hi'n tynnu'r llanw."

"Pwy ddeudodd hynny wrthat ti?"

"Mae hi'n rhoi sglein ar afalau Awst yn y nos, ac mae hi'n tynnu doluriau. Edrych arni am yn hir."

Wn i ddim am ba hyd y bum yn edrych ar y lleuad, ond unwaith clywais Sinffi yn dweud fel o bell.

"Mae hi'n mynd i dy dynnu di ohona i heno brawd, fel na fydd yn rhaid i mi fynd â chdi hefo fi ar hyd y byd. Mi fyddaf yn rhydd unwaith eto. Ond cofia am y ddwy seren."

Rwy'n siwr fod Sinffi Cooper wedi atal y cloc y noson honno yng Nghoed Spetchley, achos pan dynnais fy ngolwg oddiar y lleuad, roedd hi wedi diflanu. Roedd côr y wîg yn dechrau tiwnio a'r wawr yn torri tros Bredon. Cerddais adref yn araf a hurt, ond erbyn i mi ddod i olwg y gwersyll doedd yna neb yno. Roedd y wagenni wedi mynd a dim ond ôl lle tân ar ôl. Doedd dim golwg o'r patrîn chwaith; y gwellt a'r brigau mân a fyddai Sinffi yn adael ar y llawr i ddangos ei cherddediad.

Gollyngais fy hun i lawr a'm cefn ar y boncyff hwnnw lle yr eisteddodd hi mor aml i ddeor pŷs. Os yr oedd y lleuad wedi dod â meddyginiaeth i'w theimladau hi, doedd hi ddim wedi gwneud fawr o les i mi.

Codais a cherddais yn ddiamcan ar draws gwlad o gae i goed - wn i ddim yn iawn i ble - ac yr oedd y gwrychoedd a'r dŵr a'r haul a'r gwynt yn llawn o Sinffi Cooper, ac yn y pethau hynny y trigodd hi am yn hir wedyn.

Y GWALCH

DRAENOG



GLYN SLING

Yn rhifyn d'wetha'r Eco,
'Roedd sôn am ddyn yn smwddio.
Pwy oedd yr awdur, meddech chi?
Glyn, sy'n y llun yn gwthio!

Yn 'Sling', Ffordd Deiniol, Deiniolan,
Fe glywch gnocio, a llifio a thuchan,
Ond y campwaith a grëwyd rai misoedd yn ôl
Oedd 'beicopter' i Syr Wynff a Plwmsan.

Cyn lansio beicopter yn myd y sgrîn fach,
'Roedd Glyn am ei weld yn perfformio,
I fyny Ffordd Deiniol y saethodd y beic
Yn y cocpit? Twm Becar yn strancio!

Yn Sling y gweithia Glyn Richards bob dydd,
Ond yn Sling Tregarth mae ei gartra,
Wedi'r tantro a'r rhegi yn Sling Llanbabs
Rhaid tewi rôl mynd adra at Iona.

Cynhyrcha gampweithia' â morthwyl a choed,
A'i gynnyrch i'w gweld hyd y wlad 'ma,
Ond i arall y rhydd Glyn y dasg
O dorri pricia i Iona.

Beth dd'wedai'r Wesleaid
Â Glyn yn mellthithio?
Bydd yr awyr yn lasach
Wrth i'w wraig ddysgu dreifio.

Telur y Toes

Cefnogwch ein Hysbysebwyrr



Bistro

Glandŵr

43-45 Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278

(Danny a Nerys Roberts)

Amser Cinio o ddydd Llun i ddydd Gwener

Gwahoddir partïon o rhwng 6 a 15 i wylïo Nerys yn coginio
ac ymuno yn y gwaith - Pris £7.50 yn cynwys cinio.

Bob nos ag eithrio nos Sadwrn pryd blasus 3 chwrn yn
defnyddio bwydydd tymhorol gorau £8.00

YR ACADEMI
GYMREIG
GŴYL
HUW LLOYD
EDWARDS

Mae arnom angen unrhyw
luniau, gwybodaeth neu
atgofion am fywyd a gwaith
Huw Lloyd Edwards. Os
gallwch fod o unrhyw
gymorth i ni, cysylltwch â ni ar
frys yn:

Adran Efrydïau Allanol,
9 Glan y Môr,
ABERYSTWYTH.
Dyfed SY23 2AZ
Ffôn: (0970) 617616

Aled
Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

Agor Ffiniau'r Gorffennol Y LLENOR A'R BARDD

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Ymddangosodd yr ysgrif ganlynol o waith y diweddar Brifardd, a Chyn-Archdderwydd Cymru, y Parch R Bryn Williams, Cyn weinidog Capel Coch, Llanberis, yn Lleufer - Cylchgrawn Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yng Nghymru. Dyddiad Lleufer oedd Hydref 1963, Cyfrol XIX, Rhif 3. Golygydd Lleufer oedd y Diweddar David Thomas, tad Mr Arial Thomas a thaid Angharad Tomos, Bronwylfa, Llanwnda.

Cefais ganiatad caredig gan Mrs Eunice Bryn Williams, priod R Bryn Williams, i gyhoeddi'r ysgrif yn Eco'r Wyddfa. Diolch.

Dyma eiriau Mr Williams: "Pobl od ydym ni'r Cymry! Byddwn wrth ein bodd yn ymrannu ac yna'n cenfigennu a ffraco a'n gilydd! Un o'n hymraniadau diwethaf yw'r un rhwng y llenorion a'r beirdd. Y llenorion yn teimlo fod gormod o ffys yn digwydd ynglŷn â'r beirdd. Mae'r beirdd yn hawlio'r seremonïau i gyd iddynt eu hunain, ac yn cael gormod o sylw a chlod gwlad.

Ond chwarae teg i'r bardd gael ei ddiwrnod, oherwydd ychydig o ddim arall a ddaw i'w ran. Mae'r nofelydd, er iddo golli'r wobwr yn yr Eisteddfod, yn cael digon o gyfle i gyhoeddi ei waith wedyn ond wedi i'r prydydd chwysu am fisoedd i canio awdl, ac er iddo gael canmoliaeth y beirniaid, waeth iddo roi'r gerdd yn y tân ddim.

Gydag eithriadau prin, yr unig ffordd y gall bardd gyhoeddi ei waith yw ar ei liwt ei hun, a bod yn barod i golli arian yn y fargen.

Ond bellach, rhoir i'r llenor nawdd y Cyngor Llyfrau, nid yn unig trwy roi cyfle cyhoeddi iddo, ond hefyd trwy dalu iddo am bob mil o'i eiriau. Chwarae teg felly i'r bardd gael coron ar ei ben a'r llenor gael cadair ryw unwaith mewn blwyddyn.

Os yw'r llenorion yn dyheu am fwy o sylw, paham na luniant seremoni ychwanegol ar bnawn Mercher yr Eisteddfod? Mae seremonïau'r Orsedd yn llwyddiant. Tynnant y miloedd i'r pafiliwn, ac mae'r miloedd hynny'n cyfrannu at gynnal ein diwylliant. Paham ymyrryd a'r ddwy seremoni sy'n llenwi'r pafiliwn ar ddyddiau Mawrth ac Iau?

Ein hangen yw cael mwy o seremonïau, petai'n ddim ond er mwyn chwyddo Cronfa'r Pafiliwn. Tybed nad oes gan ein nofelwyr a'n dramawyr ddigon o ddychymyg i

lunio seremoni newydd a fydd nid yn unig cystal â rhai'r Orsedd, ond yn rhagori arnynt? Seremoni hollol Gymreig, a phobl ifainc yn eu gwisgoedd traddodiadol mewn dawn werin, y llenor yn cael ei gyfarch â chanu gyda'r tannau, â'i arwisgo â chlogyn o'r brethyn Cymreig hardd sy'n gynnyrch rhai o'n ffatrioedd heddiw. Y mae clywed rhai o'n llenorion, a rhai ohonynt yn athrawon coleg neu yn arweinwyr cyhoeddus, yn codi eu cloch fel plant wedi sorri yn gywilydd inni fel cenedl.

A chan fy mod yn sôn am yr Eisteddfod, oni ellid newid ychydig ar ei rhaglen? Paham y mae'n rhaid i bopeth ddigwydd yr un diwrnod a'r un awr o'r dydd o flwyddyn i flwyddyn? Ir selogion, nid oes raid iddynt brynu'r Rhaglen Swyddogol! Digywdd yr un peth yn yr Eisteddfod Gydwladol yn Llangollen. Nid oes angen prynu rhaglen yno chwaith, ac eithrio i wybod enwau'r ymgeiswyr. Paham na ellid cyd-reddeg y canu corawl a'r dawnsio gwerin ar hyd yr wythnos, cael ychydig o'r naill a'r llall bob dydd, a'r dyfarniadau i gyd ar y Sadwrn? Byddai hynny yn denu mwy o ymwelwyr yn ddyddiol, oherwydd y duedd yn awr yw alaru ar wyllo'r dawnsio trwy'r dydd Mercher, neu wrando ar ddegau o gorau yn canu yr un peth ar ddiwrnod arall.

Ond pobl od o geidwadol ydym, yn rhy hoff o'r hen ffurfiau. Meddylier am diwn gron ein gwasanaeth crefyddol ar y Sul. Petai ein bywyd cenedlaethol yn debycach i ffrwd nag i bwl, buasai mwy o fywyd ac o lendid ac o ganu ynddo. Yn lle cwyno babanod, llunied ein llenorion seremoni arall a ddwg ragor o liw i'n bywyd llwyd.

'Rwyn byw a bod mewn dinodedd - yn ddall
Ac yn ddiymgeledd;
Difwyniant yw fy anedd,
Gwael yw byw yn disgwyl bedd.

O'm henaint 'ddaw dim hynod - ond arwydd
Y dirwyn a'r darfod;

A'r trist dro i beidio bod
A ddaw arnaf rhyw ddiwrnod.

Deiniol

Dywed R Bryn Williams, mai Deiniol oedd y cynganeddwr gorau a gafodd y Wladfa erioed.

Ei Brofiad

Deiniol, hen gymrawd unig - mae'n edrych
Mewn oedran arbennig,
Byw yw'r bardd heb air o'i big
Yn feudwy angofiedig.

Deiniol

Cyfansoddodd Deiniol yr englyn uchod pan oedd yn 90 mlwydd oed. Yr oedd yn dal yn heinyf ei gorff, ei iaith yn gyfoethog, a'i feddwl yn chwim'. meddai R Bryn Williams yn ei lyfr "Crwydro Patagonia". Hydref 1960.

Y Sanctaidd Ddiddanydd

Canwyd yr emyn canlynol yn angladd Mr Arthur Hughes ar Fehefin 26, 1965. Yr oedd Mr Hughes yn 87 mlwydd oed a chladdwyd ef ym mynwent Gaiman, Patagonia.

Ven, alma que lloras, ven al Salvador,
En tus tristes horas dile tu dolor,
Dile, si, tu duelo: ven tal como estás,
Habla sin recelo y no llores más.

Tu pena y tristura dile a tu Senor,
Cruel desventura, engaños y error:

En su tierno seno descanso hallarás:
Ven, porque El es bueno: y no llores más.

Tu misma al cansado ensena la luz:
Gula al angustiado hacia tu Jesus.
La bendita, nueva de celeste paz
A los tristes lleva, y no llores más.

Pwy

Pwy sy'n barod i gyfieithu'r emyn uchod i Gymraeg?

Ystyr Pentigili ydyw brysio o rhywle gynted ag y medrwch. Gwelsoch y gair Pentigili yn y pennill gan Dewi Emrys y mis diwethaf. Y mae amryw wedi gofyn beth oedd ystyr pentigili.

Y Seithfed Dydd

Na chwynwn Ion it chwynnych
Un dydd, o'r saith, wedi'r gwaith gwyh.
Goronwy Owen o Fôn.

Capel Charring Cross

'Ar Sale' hen gapel gipiwyd - o glwb nef
I glwb nos newidiwyd:
I euog wedd gwrid a gwyd
Tŷ heddiw ddi-sancteididiwyd.

Ann Hughes,
Penrtaeth

ANRHEGION NADOLIG O FRO MADOG

Gyda'r Nadolig yn agosáu, mae'n siŵr fod meddwl am anrhegion i aelodau'r teulu a ffrindiau yn achosi cur pen i filoedd ohonom.

Eleni efallai y gall Siop Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Bro Madog fod o gymorth i chi. Mae Pwyllgor Hysbys yr Eisteddfod wedi bod wrthi ers misoedd yn dewis nwyddau ar gyfer codi arian i'r Brifwyl, ac mae'n amlwg ei fod wedi llwyddo i gael rhywbeth at ddant pawb. Eisoes gwerthwyd gwerth £18,000 o nwyddau, ac mae'n argoeli fod y gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y siop yn mynd i gael cyfnod prysur iawn rhwng nawr a'r Nadolig.

'Bro Madog' yw teitl yr atgynhyrchiad o ddarlun dyfrlliwa a wnaed gan Rob Piercy, yr arlunydd o Borthmadog a chynllunydd logo'r Eisteddfod. Penderfynwyd gwneud 500 o'r printiau sy'n mesur 21 modfedd wrth 17 modfedd, ac am £25 (yn cynnwys ffram) mae galw mawr amdanynt. Golygfa a welir o Faes yr Eisteddfod ydyw, gyda thŵr yr eglwys yn Nhremadog yn y cefndir. Mae pob un wedi eu rhifo a'u llofnodi, ac eisoes gwerthwyd rhai i Awstralia, yr Unol Daleithiau ac amryw o wledydd Ewrop.

Rob Piercy sydd hefyd yn gyfrifol am gynllunio plât arbennig yr Eisteddfod sy'n gwerthu am £20. Llun y llongau hwylio a adeiladwyd ym Mhorthmadog i gario llechi yr

ardal i bedwar ban byd sydd ar y plât, ac mae amryw wedi datgan mai dyma'r plât Eisteddfodol mwyaf chwaethus a welwyd ers blynnyddoedd.

Anrheg Nadolig addas arall sydd ar gael yn y siop yw'r siwtiau loncian sy'n gwerthu am £15. Mae digon o ddewis ohonynt ar gyfer plant ac oedolion mewn amryw o liwiau modern a llachar, yn cynnwys melyn, oren, 'cerise', 'jade', glas, du a llwyd.

Ac i'r plant mae 'Madog y Morwr', y cymeriad bach clwt, yn hynod o boblogaidd ac yn fargen am £10.99.

DYDDIADAU CAU RHAI CYSTADLEUTHAU YN AGOSAU

Wrth gwrs, nid pawb sy'n poeni am anrhegion Nadolig. Mae rhai yn brysur yn gweithio ar gystadlaethau'r Eisteddfod, ac mae dyddiadau cau nifer o'r cystadlaethau hyn ar y gorwel.

Dyma rai ohonynt:

Ionawr 30: Dyddiad cau cystadleuaeth llunio sgript rhaglen nodwedd awr a hanner ar gyfer y llwyfan ar y testun 'Dyffryn Madog' (Cystadleuaeth rhif 40)

Dyddiad cau cystadleuaeth trosi drama fer o unrhyw iaith Ewropeaidd heblaw'r Saesneg (Cystadleuaeth rhif 47)

Ionawr 31: Enw a chyfeiriad Ysgrifennydd pob Cwmni Drama sy'n cystadlu yng nghystadlaethau Actio Drama i fod yn llaw'r Trefnydd ynghyd â'r ffurflen briodol a chopi o'r ddrama ar gyfer y beirniad.

Cyfansoddiadau'r Fedal Ryddiaith i fod yn llaw'r Trefnydd.

Pob ymgais, ffurflen gais a thâl cystadlu yng nghystadlaethau Ail-Ddatblygu ac Ehangu Amgueddfa Forwrol Porthmadog (Cystadleuaeth rhif 219) i fod yn llaw'r Trefnydd.

Ceisiadau yng nghystadlaethau Adran Wyddoniaeth - 'Dyfeisgarwch mewn Diwydiant' (Cystadleuaeth rhif 215) a 'Mae Sens mewn Ffens - ond mae Gwrych yn Wych' (Cystadleuaeth rhif 216) i gyrraedd Swyddfa'r Eisteddfod.



BECWS DEINIOLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Huw Morris, 15 Rhos Rug ar farwolaeth eu mab Gwilym yn Wrecsam, hefyd a'i frodyr Selwyn a John a'i chwiorydd Rene a Rhiannon.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlir hefyd â Mr Gwilym Williams, Haulfan, Ffordd Glanffynnon, ar farwolaeth ei fam.

CYFARFOD Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd te y chwiorydd yn Festri Capel Mawr, nos Fercher, Hydref 1af. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Nansi Roberts, Manod. Croesawyd y llywydd newydd sef Mrs Jean Davies, Rhyd y Delyn gan Mrs Roberts. Cymerwyd y rhannau defosiynol gan Mrs Davies. Penderfynwyd y dylid cynnal Ffair Nadolig ar nos Iau, Rhagfyr 4ydd. Rhoddwyd y te gan Mrs Nansi Roberts a Mrs Beryl Thomas.

DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch Capel Mawr dydd Sul Hydref 5ed. Y llywydd oedd y Parch John Morris a cafwyd gwasanaeth bendithiol yng nghwmni'r plant a'r bobl ifanc. Cafwyd anerchiad gan Miss Ionwen Roberts, Coleg y Bala. Mrs Carys Jones oedd yr organyddes. Talwyd y diolchiadau gan y Parch John Morris.

Cymerwyd gwasanaethau y prynhawn gan Mr Iolo Llywelyn, Mr Oswald Davies, Mr John Wyn Owen a Mrs Nansi Roberts. Yr organyddes oedd Mrs Mair Jones, Ogwen.

Pregethodd y gweinidog y Parch John Morris yn ngwasanaeth yr hwyr. Mrs Mair Jones, Ogwen oedd yr organyddes.

YSBYTY ERYRI: Mae Mrs Winifred Williams, Bryn Teg yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd. Dymunwn wellhad buan iddi.

AWSTRALIA: Mae Mrs M Lewis, Medryn, wedi mynd i Awstralia am chwe mis i ymweld â'i theulu. Dymunwn bob hwyl iddi yno.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL, CAPEL MAWR: Cafwyd dechreuad llwyddiannus i'r Gymdeithas eleni. Da oedd gweld cymaint wedi dod ynghyd i fwynhau adloniant gan Barti Glannau Menai. Llywydd y noson oedd Mr Gwilym Rees Parry a rhoddwyd y diolchiadau gan y Parchedig W O Roberts. Paratowyd lluniaeth i'r Parti gan y merched a chafodd y gynulleidfa luniaeth ysgafn hefyd. Penderfynwyd gohirio y cyfarfod nesaf oedd i'w gynnal Hydref 30ain, oherwydd Noson Goffi gan yr Eglwys. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 13ain, a cheir sgwrs gan Mrs M E Jones, Cricieth.

DIOLCH: Dymuna Bryn a theulu Didfa ddiolch o galon i Wavel a Liz, Siop y Cigydd; pobl yr ardal; staff y Co-op, Tony a Beryl, Penybont; Dave, Gill a Staff y Glyntwrog am y wledd ardderchog a gafwyd; hefyd i Maldwyn ac Ernest, bwsiau K.M.P.

Diolch i ffrindiau a theulu am y galwadau ffôn, y cardiau, yr anrhegion a'r rhoddion a dderbyniodd Bryn cyn cychwyn am Awstralia. Diolch i chwi i gyd.

DIOLCH i Sian Williams, "Cartref", a'r plant, Lowri a Sion Dafydd am ddosbarthu'r Eco yn Ffordd yr Orsaf ers deng mlynedd. Maent bellach yn haeddu seibiant, a bydd Ann Lloyd Griffith "Hawddamor" yn gyfrifol am y dosbarthu o hyn ymlaen.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod Hydref o'r gangen leol yn Ysgol Gynradd Llanrug, nos Fawrth, Hydref 14. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Ann Evans, Sycharth, Is-lywydd y gangen.

Y gŵr gwadd oedd Mr Rol Williams, Waunfawr. Croesawyd ef gan Mrs Evans. Hysbysodd Mrs Evans fod Mrs Jane Williams, Mrs Nancy Lovatt a Mrs Menna Williams, y llywydd, yn wael a dymunodd adferiad buan iddynt.

Testun sgwrs Mr Rol Williams oedd "Trên yr Wyddfa". Dechreuwyd adeiladu lein i fyny'r Wyddfa yn 1894, ym mis Rhagfyr. Aeth y trên gyntaf i fyny'r Wyddfa ar Ebrill 1, 1896, 90 mlynedd i ddydd Llun y Pasg eleni. 160 o deithwyr oedd ar y trên gyntaf honno. Wrth ddod i lawr o ben yr Wyddfa bu damwain, aeth y trên dros y dibyn. Yn wrythiol ni anafwyd ond un dyn. Ni chaniatawyd i drên fynd i fyny'r Wyddfa ar ôl hynny am flwyddyn. Ail-gychwynwyd gyrru trên i fyny yn Awst 1897. Er gwaethaf y ddamwain yn 1896 teithiodd 15 mil i fyny'r Wyddfa ar drên yn 1897.

Wedi sgwrs hanesyddol, diolchwyd i Mr Rol Williams gan Mrs Bethanne Williams. Yna mwynhawyd paned o de wedi ei pharatoi gan Mrs Olwen Hughes, Miss Ann Humphreys, Mrs Jane Jones, Mrs Margaret Jones a Mrs Bethanne Williams. Diolchwyd iddynt gan Miss Phyllis Ellis.

Trefnir "Cinio Nadolig" yng Ngwesty Llyn Padarn ar Ragfyr 9, a gofynnir i bawb o'r aelodau sy'n bwriadu dod, roi eu henwau i'r ysgrifennydd erbyn y cyfarfod nesaf a gynhelir ar yr 11eg o Dachwedd yn yr Ysgol Gynradd.

Y wraig wadd fydd Mrs Pat Jones a thestun ei sgwrs yw "Calon Lan".

CHWIORYDD PONTRHYTHALLT: Cynhaliwyd Cyfarfod y Chwiorydd bnawn Iau, Hydref 16eg yn Festri Pontrhythallt. Llywyddwyd gan Mrs Williams, Bod Fair, a dechreuwyd y

gwasanaeth gan Mr C Williams, Hafan Elan. Cafwyd sgwrs fendithiol gan Mrs M Lloyd Williams ar y Diolchgarwch, a diolchwyd iddi gan y llywydd a Mrs E Thomas, Dolwar. Da oedd deall for Mrs Griffith, Dolanog adref yn ôl, ac yngwella. Rhoddwyd y te gan Mrs D Williams, Meirionfa, Talybont a Mrs J Williams, Bod Fair.

CLWB PÊL-DROED LLANRUG UNEDIG

CLWB 200 - tynnu am y tro cyntaf Enillwyr mis Medi oedd: £40: Sion Thomas, Tŷ Newydd, Llanrug (rhif 98); £20: Dafydd Owen, 11 Bryn Moelyn, Llanrug (rhif 20); £10: Elwyn Roberts, Elan Wen, Llanrug (rhif 139). Fe delir gwobrau ychwanegol o £120 a £60 mis Rhagfyr.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL

Daeth cynulliad da ynghyd i gyfarfod cyntaf y tymor nos Fercher, Hydref 8fed, pryd y caed sgwrs hynod ddiddorol gan y Parch Emlyn Richards, Cemaes. Ei destun oedd "Rhwyng môr a mynydd", a chyfeiriodd at ardal wledig Llanfairynghornwy, wrth odre'r Garn. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch W O Roberts, a thalwyd y diolchiadau gan Mrs M Lloyd Williams a'r Parch John Morris.

Ar y 21ain o'r mis, daeth Mr Morris J Roberts, Bodorgan i'n hanerch gydag atgofion o'r adeg pan oedd yn gweithio fel llythyrgludwyd mewn gwahanol ardaloedd. Soniai am y profiadau ddaeth i'w ran yn y cyfnod hwnnw. Y llywydd oedd Mr D Glynn Owen, a thalwyd diolch i Mr Roberts gan y Parch John Morris.

GWELLHAD: Dymunir gwellhad buan i Mr Hugh Thomas, Gwenallt, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

FFARWELIO: Yn ystod y mis ymadawodd Mrs B Williams, Gwydryn Newydd, i gartrefu ym Menllech, Ynys Môn.

Dymunir pob hapusrwydd iddi yn ei hen gynefin.

PLAID CYMRU

Cangen Llanrug a'r Cylch. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn ysgol gynradd, Llanrug gyda Miss Phyllis Ellis, Cadeirydd y pwyllgor yn llywyddu. Croesawyd Dafydd Wigley A.S. i'r cyfarfod a rhoddodd fraslun o'i waith fel Aelod Seneddol i ni. Rhoddwyd y te gan Miss Phyllis Ellis a Mrs Vera Williams ac enillwyd y raffl gan Gwyndaf Jones.

A wnaiff yr aelodau sylwi bod newid yn y rhaglen i'r cyfarfod nesaf. Y darlithydd fydd y Dr Eirwen Gwynn, a bydd yn annerch ar "Pŵer Niwclear." Byddwn yn croesawu aelodau Cangen Waunfawr atom i'r cyfarfod yma ar nos Fercher, Tachwedd 12 am 7.30 o'r gloch yn yr

ysgol gynradd, Llanrug.

Cynhelir y Cinio Nadolig ar nos Fercher, Rhagfyr 3 yn nhŷ bwyta Gwêl y Llyn, gydag Elfed Roberts, Penrhyndeudraeth yn ŵr gwâdd, a'r adloniant o dan ofal Arwel Jones. Er hwyluso'r trefniadau bydd y trysorydd Gwynedd Jones yn barod i dderbyn eich tâl am y cinio yn y cyfarfod nesaf.

Enillwyr y Clwb Cant am fis Hydref oedd 1. Berwyn Jones, 2. Gwyndaf Hughes. Bydd Goronwy Hughes y trefnydd yn falch o groesawu aelodau newydd i'r Clwb Cant.

DIOLCH: Dymuna Geraint a Linda Rowlands, Llys Forgan, ddiolch am y llu cardiau, arian ac anrhegion ar enedigaeth eu mab bach Sion, ac am y galwadau tra bu Sion yn sâl yn Ysbyty Amwythig.

Dymuna Mrs Jones a Len, Lyndale, Ffordd-yr-Orsaf, ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn y Noson Goffi a gynhaliwyd yn Hafan Elen yn ddiweddar. Aeth yr elw o £165.92 at Glwb y Gateway, i rai dan anfantais meddwl. Diolch hefyd i Mrs Dilys Jones, y Warden, ac hefyd i'r pwyllgor.

DIOLCHGARWCH: Bore Sul, Hydref 19eg, cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch Capel Pontrhythallt. Cafwyd gwasanaeth ardderchog gan y plant eto eleni, a cafwyd anerchiad gan y gweinidog y Parch John Morris. Diolchodd Mr Emrys Owen a Mr Morris i'r plant am gymryd y cyfarfod a hefyd i'r athrawon am eu hyfforddi hwy. Yr organyddes oedd Mrs Mair Hughes.

YSBYTY: Mae'n ddrwg gennym glywed fod Dr Eirwen Gwynn yn Ysbyty Gwynedd. Hyderwn y caiff wellhad buan.

CWRS NYRSIO: Dymuniadau gorau i Caren Griffith, Treforfa, Ffordd yr Orsaf, Llanrug sydd newydd ddechrau cwrs nyrsio yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANRUG RHESTR CANLYNIAU

Llên a Barddoniaeth

Y Gadair: Dafydd Evan Morris, 27 Lôn y Fedwen, Colomendy, Dinbych.

Y Fedal Ryddiaeth: Dewi Tomos, Gwelfor, Rhostryfan.

Englyn: J.R. Jones, Porthmadog a Mrs Margaret Evans, Rhyl

Englyn Ysgafn: "Rhyw Hen Fforin Offeiriad" (dim enw na chyfeiriad)

Telyneg: Howell Parry, Caergybi

Limrig: 1. Iola Butler, Tanycoed; 2. Howell Parry, Caergybi.

Stori Fer: Melfin Thomas, Penygroes. **Plant**

Rhyddiaeth:

Safon 1 a 2: 1. Siwan Humphreys; 2. Beverley Roberts, Sioned Mair Jones, Iwan Grinvalds; Llŷr Sion Roberts; 3. Catrin Angharad Hughes, Dawn Pritchard, Yvonne Jones.

Safon 3 a 4: 1. Gwion ap Llwyd, Aled Roberts; 2. Donna Roberts, Nia Griffith; 3. Llinos Jones, Sioned Jacques.

**GWASANAETH
TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF**

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd
Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

Mae mwy o ddewis
nag erioed gan
**JOHN A ROBERTA
GRIFFITH
Y STORFA
SGWÂR LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon 2790

Bwydydd, Llysiau,
Diodydd, Gwlân Sirdar,
Patrymau, Gweill Aero
Agorod 7.30 a.m. - 6.30 p.m.
Agorod tan 8.00 p.m. nos
Wener a
9.30 - 12.30 fore Sul
Archebwch dros y ffôn - fe'i
danfonwn at eich drws

PLANT Y DDAWNS FLODAU



Uwchradd Blwyddyn 1 a 2: 1. Rhodri ap Llwyd a Rhys Llwyd Elis.

Barddoniaeth

Safon 1 a 2: 1. Luned Jones.

Safon 3 a 4: 1. Rowan Thomas; 2. Jonathan Davies, Elen Parry, Nia Gwawr Jones; 3. Aled Roberts, Dylan Lloyd Jones, Catrin Thomas.

Uwchradd Blwyddyn 1 a 2: Rhys Llwyd Elis Celf a Chrefft

Gwnio dan 8 oed: 1. Dawn Pritchard; 2. Sioned Mair Jones; 3. Jacqueline Gibbins.

dan 10 oed: 1. Nicola Gibbins. dan 12 oed: 1. Nia Griffiths, 2. Nia Gwawr Jones.

dan 16 oed: 1. Elen Roberts, 2. Donna Roberts. Agored: 1. Bethanne Williams, 2. Dwywen Williams.

Gwau neu grosio agored: 1. Ann Lloyd Griffith, 2. Anne Gibbins.

Coginio: dan 10 oed: 1. Sera Thomas, 2. Sioned Mair Jones, 3. Llŷr Sion Roberts.

dan 12 oed: 1. Aled Roberts, Catrin Thomas; 2. Gwion am Llwyd; 3. Wendi Thomas.

dan 16 oed: 1. Leri Gwennan; 2. Dyfed Thomas.

Agored: 1. Bethanne Williams; 2. Eirianwen Thomas.

Gosod Blodau Agored: 1. Valmai Bernard; 2. Margaret Vaughan Parry.

Gwin: Agored: 1. Margaret Vaughan Parry; 2. Bethanne Williams; 3. Eirianwen Thomas.

Tri Dimensiwn dan 8 oed: 1. Ieuan Green; 2. Jacqueline Gibbins; 3. Iwan Griffith.

dan 10 oed: 1. Mathew Wyn Williams; 2. Nicola Gibbins, 3. Kenny Griffiths, Annette Jordan.

dan 12 oed: 1. Gethin Parry, 2. Gwenan Mair Roberts.

dan 16 oed: 1. Bryn Cerion Jones.

Arllunio: Ysgol neu Ddosbarth Meithrin: 1. Claire Louise Jacques; 2. Emma Davies; 3. Meleri Mair Griffith.

Dosbarth derbyn: 1. Lisa Shudlak; 2. Wayne Pierce Jones; 3. Raymond Morgan, Martin Llewellyn Jones.

Babanod Canol: 1. Gareth Hughes; 2. Emma Davies; 3. Catrin Angharad Hughes.

Babanod Uchaf: 1. Gareth Roberts; 2. Owain Lloyd; 3. Fiona Jennings.

Safon 1 a 2: 1. Iwan Rhys Owen, 2. Dawn Pritchard; 3. Catrin Angharad Hughes.

Safon 3 a 4: 1. Iwan Rhys Parry; 2. Gwenan Mair Roberts; 3. Catrin Thomas, Owain ap Gruffydd.

Blwyddyn 1 a 2: 1. Stephen Edwards; 2. Richard Galister; 3. Iolo Eilian.

Blwyddyn 3 a 4: David Roberts.

Ffotograffiaeth: dan 16 oed: 1. Gwion ap Llwyd; 2. Rhodri ap Llwyd.

Agored: 1. Gwynndaf Huws; 2. Islwyn Roberts; 3. Islwyn Roberts; 4. Dylan Fôn Huws.

Cerdd (Cyfarfod y Prynhawn)

Unawd cyn oedran ysgol: 1. Ffion a Sian.

Unawd Dosbarth Meithrin a Derbyn: 1. Meleri Griffith; 2. Awen Humphreys; 3. Donna Williams, Emyr Roberts; 4. Elin Dafydd.

Unawd Babanod Canol ac Uchaf: 1. Iona Williams; 2. Delyth Humphreys, Elen Morgan Jones, 3. Cheryl Edwards, Kelly Roberts.

Unawd Safon 1 a 2: 1. Sera Thomas; 2. Siwan Humphreys; 3. Llŷr Sion Roberts.

Unawd Cerdd Dant: 1. Gwenan Mair Roberts; 2. Llŷr Sion Roberts.

Unawd Safon 3 a 4: 1. Gwenan Mair Roberts; 2. Nia Griffith; 3.

Delyth Morris. Unawd Piano: 1. Gwenan Mair Roberts; 2. Nia Griffith; 3. Rhian Green.

Unawd ar unrhyw offeryn heblaw piano a recorder: 1. Gwenan Mair Roberts; 2. Donna Roberts.

Unawd Offeryn Prës: 1. Gwion ap Llwyd; 2. Aled Roberts.

Parti Recordyddion: 1. Parti Rosalind; 2. Parti Amanda; 3. Triawd yn y Bar.

Parti Unsain: 1. Parti Beverley; 2. Parti Lynne; 3. Parti Catherine.

Dawnsio Gwerin: 1. Parti Rhyddallt; 2. Parti Seiont; 3. Parti Catrin.

Cyfarfod yr Hwyr

Unawd dan 16 oed: 1. Glenys Hughes, Llanddodog; 2. Beryl Jones, y Ffôr; 3. Hafwen Griffith, Pentreuchaf a Ffion John Williams.

Llanrug. Deuawd dan 16 oed: 1. Beryl Jones a Hafwen Griffith; 2. Lowri Roberts a Gwenan Mair Roberts, Llanrug.

Unawd Piano dan 12 oed: 1. Tudur Jones, Pwllheli; 2. Glenys Hughes, Llanddodog; 3. Lowri Angharad Roberts, Llanrug; 4. Elen Wyn Roberts, Llanrug, Gwynedd Glyn.

Unawd 16-21 oed: 1. Hefina Williams, Eglwysbach; 2. Carys Ellis Jones, y Ffôr.

Unawd ar unrhyw offeryn heblaw piano: 1. Graham Williams; 2. David Jacobs; 3. Lowri Williams.

Unawd Cerdd Dant dan 16 oed: 1. Ffion John Williams, Llanrug; 2. Beryl Ellis Jones, y Ffôr; 3. Ffion Orwig Thomas, Llanrug.

Emyn dros 50 oed: 1. Ithel Parry, y Ffôr; 2. Eirlys Thomas, Dolgellau; 3. Katie Wyn, Llandwrog.

Unawd ar unrhyw offeryn dros 16 oed: 1. Manon Llwyd Evans, Llanrug; 2. Carys Ellis Jones, y Ffôr.

Cân Werin: 1. George Baum, y Ffôr; 2. Myfanwy Wyn Roberts, Llangefni.

Prif Unawd: 1. Rhian Jones, Rhosfawr, y Ffôr; 2. Emyr Wyn Jones, Llangefni; 3. Clarence Jones, Llanddaniel, a Robert Wyn Roberts, Bontnewydd.

Adrodd (Cyfarfod y Prynhawn)

Adrodd Dosbarth Meithrin a Derbyn: 1. Gwion Roberts; 2. Einir Jones, Meleri Griffiths; 3. Sian Green, Awen Humphreys, Michelle, Donna.

Adrodd Babanod Canol ac Uchaf: 1. Delyth Humphreys; 2. Iwan Griffith, Iona Williams; 3. Ieuan Green, Gwenan Humphreys.

Adrodd Safon 1 a 2: 1. Siwan Humphreys; 2. Rhian Green; 3. Sioned Mair Jones.

Adrodd Safon 3 a 4: 1. Nia Griffith.

Parti Cyd-adrodd: 1. Parti Sharon Michelle; 2. Y Sachau Duon; 3. Parti Gwenan.

Cyfarfod y Nos:

Adrodd dan 16 oed: 1. Nerys Haf Owen, Valley; 2. Beryl Elis Jones, y Ffôr.

Adrodd 16-21 oed: 1. Carys Elis Jones, y Ffôr; 2. Eleri Lewis Jones, Llansadwrn.

Prif Adroddiad: 1. Meira Turner, Waunfawr; 2. R Davies, Nefyn, Myfanwy Roberts, Llangefni; 3. Helena Parri, Llanrug.

APÊL Y SGANIWR CRONFA LLANRUG

Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn Ffestri Pontrhythallt ar nos Sul, Tachwedd 9fed am 7.30, i sefydlu Pwyllgor Lleol.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch Plant Ysgol Sul Tan-y-Coed M.C. bawn Sul, Hydref 19.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Siân Pritchard, Kelly Roberts, Beverley Roberts, Rheon Parry, Iwan Pritchard, Steven Williams, Llion Pritchard, Cenwyn Jones, Jonathan Williams, Anwen Jones, Mark Jones, Tudor Jones, Aled Parry, Annwen Parry, John Jones, Wendy Roberts a Bethan Parry.

Trenfwyd y gwasanaeth gan y gweinidog y Parch John Morris, a chafwyd anerchiad cyfamserol i'r plant ganddo yn ystod y gwasanaeth.

Y cyfeilyddion oedd Miss Enid Roberts a Mrs Hefina Roberts.

Bore Llun Diolchgarwch, cafwyd

Cyfarfod Gweddi - Mr Glynne Owen, Mrs Meira Pritchard, Mrs Beryl Jones, Miss Megan Humphreys a Mrs Megan Williams yn gwasanaethu a Miss Enid Roberts yn cyfeilio.

Nos Lun Diolchgarwch, pregethwyd gan y Parch Bryn Williams, Bryn Du. Cymerodd gyfle hefyd i roi sgwrs gyfamserol i'r plant.

Croesawyd y Parch Bryn Williams gan y Parch W O Roberts, blaenor yn Nhan-y-Coed ers ei ymddeoliad.

Y cyfeilydd oedd Mrs Violet Blanchard.

Bendithiol iawn fu gwasanaethau'r pen-wythnos arbennig hwn - Gŵyl Ddiolchgarwch.

Llawenydd mawr oedd yr ymateb teilwng o Wyl o Ddiolch.

CYMDEITHAS HANES BRO 'ECO'R WYDDFA'

PWY OEDD OWAIN LLANDDEINIOLEN

Nid cymeriad dychmygol mo Owain Llanddeiniolen. Daeth tystiolaeth ei fod yn greadur o gig a gwaed gan Mrs Lydia Thomas, Rhiwlas, Stâd Glan Beuno, Bontnewydd a gan Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol, Llanrug. Diolch i'r ddau ohonynt am gysylltu â mi, ac am nodiadau mor ddiddorol.

Dyma a ddywed Mr Cledwyn Williams:

"Ganwda magwyd Owen Williams (a adwaenid fel Owen Llanddeiniolen) yn Ty'n Rhos Bach, bwthyn bychan ger Capel Seion. Nid oes dim o olion y bwthyn erbyn heddiw.

Rhyw greadur diniwed oedd, ac aeth yn grwydryn di-gartref a di-deulu. Dechreuodd grwydro Cymru a Lloegr, ac arferai ar ei grwydradau fynd a llythyrau a negesau at feirdd y cyfnod.

Bu farw mewn sgubor, rhywle yn Sir Fôn.

Aeth nifer o'i hen gyfeillion i Fôn i'w gyrchu, a chariwyd ef at y cwch i Foel y Don. Deallodd y gŵr a ofalai am y cwch mai gweddillion Owen Williams oedd i'w cario drosodd i Arfon, ac meddai: "Rywf wedi cario'r hen Owen ddegau o weithiau 'nôl a blaen am ddim, ac mi cariaf o hefyd ar ei siwrna olaf am ddim."

Fe'i claddwyd ym meddrod ei deulu yn Llanddeiniolen."

Gallodd Mrs Lydia Thomas gadarnhau mai Ieuan Lleyl oedd awdur y gân Saesneg i Owen. Mae hi yn un o ddisgynyddion y bardd, ac y mae llyfr o'i farddoniaeth yn ei meddiant. Myrddin Fardd fu'n gyfrifol am gasglu'r cerddi ynghyd, ac fe'i cyhoeddwyd, gan gynnwys

cofiant byr i'r bardd, ym Mhwllheli ym 1878. Teitl y gân yn y llyfr (Caniadau Ieuan Lleyl) yw "Written for Owen Llanddeiniolen", a cheir nodiad ar waelod y ddalen yn egluro pwy ydoedd. Mae'n darllen fel hyn:-

"Creadur tlawd, diniwaid a gonest o'r enw Owen Williams, o blwyf Llanddeiniolen oedd hwn, ac yn teithio Môn ac Arfon tua 60 mlynedd yn ôl, o ddrws i ddrws am ei damaid, ac yn cludo llythyrau beirdd a llenorion at eu gilydd. Byddai y beirdd yn canu iddo, er mwyn annog y ffermwyr a'r boneddigion i fod yn dyner o honno a diwallu ei angen."

Yn y llyfr hwn hefyd y mae'r penillion i John Humphreys, Tŷ Mawr, Llanddeiniolen, a cheir gân arall yn diolch i Morgan Dafydd o'r Nannau am roi ffon yn anrheg i Owen Llanddeiniolen ym 1820.

Mae ffon o eiddo Ieuan Lleyl ym meddiant Mrs Thomas heddiw, ond aneglur iawn yw'r llythrennau sydd wedi eu torri ar garn y ffon; oes o ddefnydd wedi caboli'r cerfiadau'n llyfn.

Os oes gwybodaeth gan unrhyw un am ddyddiadau geni a marw Owen Williams, byddwn yn falch o'u derbyn. Efallai fod mwy o hanes ei grwydro ar gôf a chadw gan rywun o hyd. Cysylltwch â mi er mwyn cael darlun cyflawn o'i fywyd.

CYFARFOD CYNTAF CLWB ERYRI

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd yng ngwesty'r Gwynedd, Llanberis, nos Wener Hydref 3, pan gafwyd darlith gyrhaeddgar iawn gan Emyr Price ar y newidiadau a'r problemau cyfoes sy'n wynebu'r wasg Gymreig. Llywydd y noson oedd Iolo Llywelyn, ac yn sgil ei arweiniad cafwyd trafodaeth fywiog. Talwyd y diolchiadau gan John Roberts Williams. Bydd y cyfarfod nesaf nos Wener, Tachwedd 7fed, pan y ceir sgwrs gan Rol Williams gydag Arfon Jones yn llywydd.

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf

blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

W.H. JONES

TRYDANWR

Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS

FFÔN:

LLANBERIS 871470

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

ECO'R IFANC

NEWYDDION O YSGOL BRYNREFAIL

CYFARFOD YR URDD: Nos Fawrth, Hydref y pedwerydd ar ddeg cafwyd cyfarfod cyntaf o'r Urdd eleni, a chynhaliwyd helfa drysor o dan ofal Mr Dafydd Evans. Croesawyd y disgyblion newydd, a chafodd pawb ddiod a chreision.

DR. BARNADO: Prynhawn Llun, Hydref y trydydd ar ddeg, daeth Miss Nia Jones o fudiad Dr. Barnado i ddangos ffilm a chael sgwrs gyda disgyblion y chweched dosbarth i ddangos sut fath o waith y maent yn ei wneud. Gwirfoddolodd rhai o'r disgyblion i fynd i Gaernarfon ar y pumed ar hugain o Hydref i godi arian at y mudiad.

YR EISTEDDFOD YN ÔL: Cynhelir yr Eisteddfod ysgol eleni ddydd Iau, yr ugeinfed o Dachwedd. Chwith oedd ei cholli y llynedd. Mae'r disgyblion i gyd wrthi'n paratoi yn brys ar ei chyfer. Gobeithio y cawn gefnogaeth dda er mwyn ei hail ysbrydoli.

Fy Niwrnod Cyntaf
Yn yr Ysgol Uwchradd

Dychmygais
Dychmygais weld cwmwl du,
cwmwl, plant mawr, hŷn.
Yn disgwyl wrth y drws
ac yn chwerthin
chwerthin am fy mhen i.

Meddyliais
waliau llwm.
ystafelloedd cyfyng, poeth.
Ac athrawon
blin.

Brueddwydais,
Ysgol yn y pellter
bwgan anhapusrwydd,
OND

Gwelais y cymylau'n clirio
A golau haul yn disgleirio
Gwelais y drysau'n
agor
agor gyda gwên.
Fel y wên ar fy wyneb
i.

Lowri Angharad 1E

AMSEROEDD Y BYSIAU AR ÔL HANNER TYMOR

	BORE (amser codi)	PRYNHAWN (amser dychwelyd)
NANT PERIS 395 K.M.P.	8.15 am	3.45 pm
LLANBERIS 395 K.M.P.	8.20 am	3.40 pm
98 Crosville DINORWIG	8.20 am	3.40 pm
93 Ieuan Williams	8.10 am (bws gwasanaeth cyhoeddus)	3.50 pm
DEINIOLEN 93 Ieuan Williams	8.20 am - Rhydfadog 8.22 am - Pentre Helen (bws gwasanaeth cyhoeddus)	3.37 pm Pentre Helen 3.40 pm Rhydfadog (bws gwasanaeth cyhoeddus)
393 Ieuan Williams	8.25 am - Stryd Fawr Deiniolen	3.40 pm
PENISARWAEN 392 Crosville GORS BACH - SEION 392 Crosville	8.25 am Gors Bach 8.12 am Seion 8.15 am	3.35 pm 3.45 pm Seion
CEUNANT 392 Crosville	8.40 am	391 - Crosville 3.40 pm
BETHEL 98 Crosville	8.37 am Pontrug 8.38 am Nazareth 8.42 am Bethel	11A Whiteways 3.35 pm Bethel
CWM Y GLO Bws gwasanaeth cyhoeddus rhif 99	8.24 am	3.31 pm

CYFFURIAU A THODDYDDION

Ydych chi wedi gweld pethau a allasai arwain i sefyllfa waeth? Ydych chi wedi clywed, neu efallai'n amheus? Ydych chi angen gwybodaeth? Peidiwch ag oedi, da chwi. Dowch i gysylltiad ag unrhyw un o'r canlynol: PC Oscar Evans (Swyddog Cyswilt Heddlu) Caernarfon 3333; Gwyndaf Jones (Uwch Swyddog Lles) Caernarfon 4121 est 2215; W.E. Thomas (Prifathro Ysgol Brynrefail) Caernarfon 2381.

MEDDAI BRYAN ROBSON...



ARGRAFFIADAU PLANT Y FLWYDDYN GYNTAF YN YSGOL BRYNREFAIL

Y mae ysgol gynhwysfawr Brynrefail yn dal tua 850 o blant o wahanol oedran 11-18 oed. Mae llawer o wahanol bynciau i'w cael yn yr ysgol yma a llawer o ddiddordebau, fel ymarfer corff a gwaith llaw. Y mae yno tua 27 o wahanol athrawon. Mae yno gae chwarae lle gellwch chwarae pêl-droed neu rygbi. Y maent yn ei galw yn Ysgol Brynrefail er ei bod yn Llanrug, oherwydd yn wreiddiol yr oedd yr ysgol gyntaf wedi cael ei hadeiladu ym mhentref Brynrefail.

Gethin Wyn Jones 1E

Yr wythnos diwethaf roedd diwrnod mabolgampau'r ysgol. Y gemau oedd hoci, pêl rwyd a phêl droed. Roedd pedwar tîm yn cystadlu, sef Elidir, Gwryfai, Eilian ac Eryri. Roedd bechgyn blwyddyn un yn cael chwarae gêm o bêl-droed ond ni chafodd y genethod wneud dim.

Yn y boreau mae gwasanaeth i flwyddyn un, dau a thri ar fore dydd Llun a dydd Mercher a dydd Gwener, ond ar ddydd Mawrth a dydd Iau mae'r gwasanaeth i flwyddyn pedwar, pump a chwech. Weithiau bydd yr athrawon yn mynd ar ben y llwyfan ac yn cynnal y gwasanaeth. Rhan amlaf bydd y plant yn cymryd rhan ynddo.

Siân Emlyn Hughes 1E

Eleni rwyf wedi dechrau mewn ysgol fawr o'r enw Ysgol Uwchradd Brynrefail, Llanrug. Rwyf yn Dosbarth 1E a fy athrawes dosbarth i yw Mrs Griffiths. Mae yna 1P, 1E, 1R, 1L, 1S, mae fy ffrind yn 1P. Rwyf wedi setlo i lawr yno, ac rwyf yn hapus iawn yno. Fy hoff bynciau i yw arlunio, gwaith coed, Cymraeg, Hanes, Mathemateg a Phêl-droed. Does yna ddim byd wedi digwydd yno eto ond roedd Ambiwllans yn yr ysgol am fod hogyn wedi torri ei fraich wrth syrthio oddi ar y pethau dringo yn y wers Addysg Gorfforol.

Stephen Edwards 1E

Ers i mi fod yn yr ysgol fawr does dim llawer wedi digwydd, ond yn fy marn i y peth mwyaf sydd wedi digwydd yw'r gemau tai, Eryri, Elidir, Eilian a Gwryfai fel mae pawb yn eu hadnabod. Hoci a phêl-droed oedd y gemau ond nid oes neb digon da i gael dwy lygad ar y ddau le, felly fel pob hogyn yr oeddwn i yn gwylio'r gemau pêl-droed ac wrth gicio, stryffaglo a hacio tan y diwedd dyma eu safleoedd. Gwryfai, Eryri, Eilian ac Elidir, ac mae'r diwrnod yna'n werth ei gofio ond y peth pwysicaf rwan yw y corau tai. Ac i blant blwyddyn un y flwyddyn nesaf, y peth gorau i'w wneud yw edrych ymlaen a gobeithio.

Bryn Jones 1E

Pan gerddais i fewn i'r ysgol fe ddychrynais wrth weld pa mor fawr oedd hi. Gwelais pawb yn rhuthro i bob man a sŵn gweiddi yn ysgwyd yr ysgol. Ar y diwrnod cyntaf es ar goll lawer gwaith. Deuais i adnabod y plant yn sydyn iawn ac yn araf fe ddysgais lle roedd y dosbarthiadau. Teimlais yn nerfus ar y dechrau ond teimlais yn iawn wedyn.

Kenneth Richardson 1E

Dechreuwyd paratoi ar gyfer eisteddfod yr ysgol trwy rannu yr ysgol yn bedwar tŷ sef, Eilian, Elidir, Eryri a Gwryfai. Mae corau'r tai wedi cyfarfod un waith neu ddwy.

Mae cyfarfodydd yr Urdd wedi cychwyn hefyd a chafwyd helfa drysor ond roedd yn tywallt y glaw nes bod y papurau yn wlyb iawn. Manon Elis 1E

BEIRDD YR YSGOL

HENAINT

Bodïaf y sidan gwyn
a'u troi un ar y tro,
Wyneb llwm du a gwyn
yn gwgu a safrythu'n sarrug.
Tynnaf hwy o'r ffrâm
gan synfyfyrto i'r gorffennol.
Syllaf i bwl eu llygaid
gan noffio mewn atgofion.
Llun bychan twt
-fy hen nain yn sefyll,
Gwallt du bits
Yn disgleirio yn yr haul.
Rhesen fel heol fechan
yn ôl i orwel y pen.

Arwel E Jones, Dosh 4

DAIL YR HYDREF

Un funud ar y goeden ar fore o haf,
Y tymor hwnnw drosodd, ffarwel i'r tywydd braf.
Daw gwynt milain o bellter maith
I yrru'r dail ar eu marwol daith.
Dail lliwgar, coch, oren, brown a melyn
Yn chwyrlio o gwmpas fel Olwyn Cathrin.
Yna yn disgyn yn farwaidd i'r llawr
Yn creu math o garped lliwgar mawr.
Allan daw'r plant i chwarae
Yn sathru'r dail yn y cae
Gan feddwl nad oes ganddyn nhw deimladau.
Tammi Jones, 1P

DAIL YR HYDREF

Carpod o ddail cringoch llipa
Yng ngwaelod y ffordd.
Ddoe fel blodyn
Heddiw fel sbwriel
Yng ngwaelod y ffordd.
Deilen fel wyneb
Wyneb hen ddyn,
Crebachlyd a garw
Yw'r ddeilen grin.
Ddoe'n hyfryd,
Heddiw'n hyll,
Fory'n ddim.

Lowri Angharad, 1E



CRIB COCH

Y SGWÂR, LLANRUG
Ffôn Caernarfon 76772
TRIN GWALLT I BAWB
O'R TEULU GAN JEN
Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

**SBORT
PORT**

Fel y gŵyr y mwyafrif erbyn hyn mae'n siŵr, mae Pwyllgor Ieuenctid Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Madog 1987 wedi mabwysiadu'r enw **SBORT PORT**. Mae ar y pwyllgor nifer helaeth o ieuenctid sy'n byw ac yn gweithio yn nalgylch yr Eisteddfod, a hwy fydd yn gyfrifol am drefnu'r gweithgareddau yn y Babell Ieuenctid ar faes yr Eisteddfod ddechrau Awst nesaf.

Yn ystod yr wythnos, gobeithir cynnal nifer o sesiynnau roc a gwerin o bob math gyda grwpiau ac unigolion sydd eisoes wedi sefydlu eu hunain yn cymryd rhan. Yna ar gyfer grwpiau ac unigolion sydd newydd ddechrau neu ar fin dechrau perfformio, cynhelir cystadleuaeth lle y'u beirnedir ar y cyflwyniad fydd yn para hyd at ddeng munud.

Cystadleuaeth 90:

Gwahoddir grwpiau ac unigolion roc-pop a gwerin i berfformio set wreiddiol

yn para dim hwy na deng munud. Caniateir pum munud i baratoi a darperir y system sain a'r drymiau. Cedwir yr hawl i gynnal rhagbrawf neu ragwrandawriad os bydd angen. Gwobrwyir fel a ganlyn:

- (a) Y Cyflwyniad Gwerin gorau - Gwobr: £80 (Rhodd 'Llanw Llyn')
- (b) Y Cyflwyniad Roc neu Pop gorau - Gwobr: £80
- (c) Y Perfformiad Lleisiol neu Offerynnol gorau gan unigolyn - Gwobr: £80 (Rhodd Cwmni Sain Cyf)

Y beirniaid fydd Robin Evans a Rhys Harris.

Gofynnir i'r rhai sy'n dymuno cystadlu yn y gystadleuaeth hon anfon manylion i Swyddfa'r Eisteddfod erbyn Mai 1af, 1987. Yn ogystal, mae Pwyllgor Sbot Port wedi darparu nifer o gystadlaethau cartref fel a ganlyn:

Cystadleuaeth 92: Llundio Fideo

Cynllunio sgript ar gyfer fideo o unrhyw gân gyfoes Gymraeg gan gynnwys cyfres o ddarluniau i amlinellu'r stori (stribedi stori).

Gwobr: £50 (Rhodd Cwmni Teledu'r Tŵr). **Beirniad: Dafydd Wled Jones.**

Cystadleuaeth 93: Portread o grŵp neu ganwr neu gantores

drwy gyfrwng ffotograffiaeth. Dylid cyflwyno rhwng 6 a 12 o luniau dim mwy an maint 10" x 8". Ystyrir arddangos y lluniau buddugol yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Gwobr: £50.

Beirniad: Gerallt Llewelyn.

Cystadleuaeth 94: I rai dros 16 oed

Erthygl ddadleuol gyfoes.

Gwobr: £40.

Beirniad: Dafydd Rhys.

Cystadleuaeth 95: I rai dan 16 oed

Adolygiad o unrhyw record a ymddangosodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwobr: £40 (£20 Rhodd 'Llanw Llyn')

Beirniad: Llion Williams.

Cystadleuaeth 96: Cynllunio clawr i raglen weithgareddau 'Sbot Port'

wythnos yr Eisteddfod gan ddefnyddio logo'r Pwyllgor. Sylwer ar amod 4 uchod.

Gwobr: £40

Beirniad: Charli Britton.

Y dyddiad cau ar gyfer y cystadlaethau hyn yw Ebrill 1af, 1987 ag eithrio cystadleuaeth 96 'Cynllunio clawr' pan ofynnir i'r ymgeiswyr gyflwyno'r gwaith erbyn Ionawr 31ain, 1987.

Yn ogystal â'r cystadlaethau hyn, bydd y pwyllgor yn trefnu nifer o nosweithiau yn yr ardal o hyn tan yr Eisteddfod gan ddechrau gyda noson ym Mhlas Gwyn, Pentrefelin nos Wener, Hydref 17eg, 1986.

Am fwy o fanylion ynglŷn â'r holl weithgareddau, cysyllter â Swyddfa'r Eisteddfod, 7 Bank Place, Porthmadog, Gwynedd.



EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU

DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990 LOGO I'R EISTEDDFOD

Cynhelir cystadleuaeth i blant a phobl ifanc dalgylch yr Eisteddfod i lunio arwyddlun neu symbol gogyfer â Phrifwyl Ieuenctid Cymru ym 1990.

Defnyddir yr arwyddlun hwn ar holl gyhoeddiadau'r Eisteddfod - Rhestr Testunau, Rhaglen y Dydd, y Cyfansoddiadau Buddugol, papur ysgrifennu, bathodynau ac ati. Mae hyn yn rhoddi cyfle arbennig i holl ieuenctid yr ardal i osod eu delwedd eu hunain ar yr Wyl.

Rhaid i'r arwyddlun fod yn berthnasol i'r Eisteddfod hon.

Rhaid i'r gwaith fod yn ymgais ddilys plant a phobl ifanc dan 25 oed sy'n byw yn nalgylch yr Eisteddfod.

Dylid meddwl yn nhermau cynllun dau neu dri lliw.

Rhaid i'r cynllun fod yn addas i'w leihau (yn fach iawn ar fathodynau ac ati) heb golli dim o'i naturioldeb ac, yn yr un modd, rhaid iddo fod yn addas i'w chwyddo (ar gyfer ei ddefnyddio ar bosteri ac ati).

Dylai'r cynllun gynnwys y geiriad: - 'EISTEDDFOD Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Dyffryn Nantlle ac Arfon, 1990'

Anfoner y cynnyrch, mewn amlen heb fod yn fwy na 300mm x 250mm at 'Eirian Dulyn Owen, Swyddfa'r Trefnydd, Yr Aelwyd, 3-5 Stryd yr Eglwys, Caernarfon', erbyn 31ain IONAWR, 1987, fan bellach.

Gwobr: Cyflwynir y logo buddugol mewn ffurf barhaol i'r enillydd yn ogystal â thocyn wythnos (Dosbarth 1af) i'r Eisteddfod.

Bydd hawlfraint y cynllun buddugol yn eiddo Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990.

Am restr rheolau llawn anfoner at Eirian Dulyn Owen, Swyddfa'r Urdd, Yr Aelwyd, Caernarfon

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau'r 'Eco'.

Beth am ddod i gystadlu i EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN

Testunau am ddim yn y siopau llyfrau Cymraeg. a beth am ddod i fwynhau'r wledd yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Nos Wener, Tach. 7, am 6.30 a Dydd Sadwrn, Tach. 8, am 12.30 a 6

Llundiaeth ysgafn yn yr Ysgol bawn Sadwrn
Manylion llawn: Bethesda 600846

£10: Di-enw, Bethel

£5: Mr a Mrs Now Williams, Dewi a Bryn, Didfa, Llanrug. Gareth a Dilys, Bod Owen, Cambrian Terrace, Llanberis.

£2: Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen, Deiniolen.

Mrs Gwyneth Jones, 17 Bryntirion, Penisarwaun.

Mrs Meira Jones ac Eilir Williams, Bronallt, Deiniolen.

Mrs Ceinwen Evans, 12 Hafod Olau, Deiniolen. Di-enw, Deiniolen.

£1: Mr a Mrs Victor Jones, 11 Bryntirion, Penisarwaun.

Mrs Annie Jones, 5 Maes Eilian, Dinorwig.

Mrs Beti Roberts, 7 Maes Eilian, Dinorwig.

Mrs Beti Jones, Tan y Buarth Uchaf.


Mr a Mrs A Ward, 9 North Road, Deiniolen.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON LLANRUG (ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

SEINDORF: Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am ddau fis, sef mis Awst a mis Medi:

Awst: 1. £20 - Mrs Eirian Jones, 11 Stryd Newydd; 2. £15 - Mr W O Williams, 6 Rhydfadog; 3. £10 - Mr Kevin Jones, 9 Tai Caradog.

Medi: 1. £20 - Mrs Jennie Roberts, 96 Pentre Helen; 2. £15 - Mrs Marion Childs, dan ofal Arfon House; 3. £10 - Mr R Arfon Lewis, Waen-fro.

CYMDEITHAS UNDEBOL Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o Gymdeithas Undebol y Chwiorydd, Deiniolen, ar nos lau, Hydref 2il yn Ffestri Disgwyfya.

Cymerwyd y rhan arweiniol o'r cyfarfod gan y Llywydd, Mrs Miriam Lewis, trwy emyn, darlleniad a gweddi.

Croesawodd Mrs Miriam Lewis y chwiorydd newydd, a'u hannog i ymuno yn ymdrech y chwiorydd, gan fod y merched heddiw â rhan fawr yng ngweithgareddau ein Heglwys. Anfonwyd cofion cynnes at y rhai oedd yn absennol trwy waeledd, a hefyd at y rhai hynny sy'n wael yn eu cartrefi ac ysbytai.

Cafwyd adroddiad gan Mrs Lewis o hanes digwyddiadau'r dydd yn Sasiwn y Chwiorydd, a gynhaliwyd ym Mrynrefail ar Fedi 11eg, lle y cafwyd anerchiadau cyfoethog gan Miss Gwenda Jones a Mr O Aneurin Owen.

Rhoddodd Mrs Lewis adroddiad hefyd o encil gŵyl "Hwyl Haf" yn y Bala, lle roedd pawb wedi cael amser difyr, ac wedi mwynhau eu huanin yn fawr.

Rhoddwyd y te am y mis hwn gan Mrs Dilys Williams, a therfynwyd y cyfarfod gyda'r Fendith.

Dymuna yr oll o'r chwiorydd gydymdeimlo â Mrs Elsie Davies a'r teulu, 1 Rhos Gwryfai, Clwt-y-Bont, yn eu profedigaeth o golli un annwyl o'u plith, a hefyd deulu y diweddar Mr R Jones, Blaen-y-Cae.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar nos lau, Tachwedd 6ed am 7 o'r gloch, ac estynnwn groeso cynnes i chwi.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Hydref 6ed dan arweiniad Mrs Rita Parry Jones, y llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a darllenwyd y cofnodion gan Mrs Marian Williams, yr ysgrifennydd. Croesawyd y wraig wâdd, Miss M Wilsyongliue o Gaernarfon, gan y llywydd. Cafwyd adroddiad o'r A.G.M. yn Llundain ym mis Mehefin. Diolchwyd iddi gan y llywydd. Cafwyd Moes a Phryn.

Rhoddwyd y te gan Mrs Glenys

Williams ac Eirian Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Marian Williams.

Cydymdeimlwyd â Mrs Nancy Rowlands wedi colli ei phriod yn sydyn, sef Mr Robert Rowlands. Dymunwyd gwellhad buan i Mr Tomi Hughes, brawd Miss Kathleen Jane Jones a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Hefyd i Anwen, merch Mrs Gwen Hughes ar ôl damwain. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 3ydd pan fydd Mrs Rita Parry Jones yn sôn am brydau yn y gegin.

Bydd y bws yn gadael Rhydfadog am chwarter wedi chwech ar nos Wener, Hydref 31 i fynd i Bethesda i'r Cyngor.

Y GANOLFAN: Cyfarfu pwyllgor rheoli'r ganolfan nos Fawrth, 30 Medi. Adroddodd yr ysgrifennydd fod y sesiynau bowllo a gynhelir ar foreau Sadwrn wedi bod yn rhai llwyddiannus iawn. Trefnir y rhain gan Mr Euryr Williams, o dan nawdd Menter Chwaraeon.

Gwnaed ymholiadau i mewn i'r posibilrwydd o gael caniatad i godi canolfan aml-bwrpas ar safle'r ysgol feithrin, a phenderfynwyd rhoi'r mater gerbron cyfarfod cyhoeddus cyn mynd ymlaen gyda'r fenter.

Bydd cyfrifon y Ganolfan yn cau ar y dydd olaf o fis Tachwedd. Apelir ar wahanol gymdeithasau i dalu eu dyledion cyn y dyddiad hwn.

Cynhelir cyfarfod blyneddol y Ganolfan yn y neuadd nos Fercher, 10 Rhagfyr, am 7.30 o'r gloch.



Ceinwen Evans yn dathlu ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed gyda'i mab Robin.

Dymuna Mrs Meira Jones ac Eilir Williams, Bronallt, Deiniolen, ddiolch o galon am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt tra yn yr ysbyty dan driniaeth law-feddygol. Diolch hefyd i staff Wardiau Ogwen, Conwy a Dewi am eu gofal caredig. Diolch yn fawr iawn i bawb.



Yn ystod mis Hydref, cychwynodd cyfres newydd o raglenni Trebor Edwards ar S4C. Gwahoddwyd merch o fro Eco'r Wyddfa, sef Mrs Annette Bryn Parri, Cynefin, Deiniolen, i gyfeilio unwaith eto eleni. Yn rhaglen olaf y gyfres, bydd Trebor yn canu cân wedi ei chyfansoddi gan Annette a'i gŵr, Gwyn Parri. Enw'r gân yw 'Gwag yw'r Stafell'.

Erbyn hyn, mae dros fil o dapiau 'Teulu Tŷ'r Ysgol' wedi eu gwerthu, ac wedi cyrraedd gwahanol rannau o'r byd. Yn ystod mis Tachwedd eleni, ymddengys record hir (a chaset) 'Genod Tŷ'r Ysgol'. Gobeithir y bydd y record hon yn un 'wahanol': ar un ochr, mae'r tair chwaer yn canu caneuon wedi eu cyfansoddi gan Annette a Gwyn Parri. Ar yr ochr arall, mae Annette yn chwarae unawdau piano.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mr a Mrs A Ward, 9 North Road, ddiolch i'r teulu a phawb a fu mor garedig ar enedigaeth eu merch fechan, Rachel. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mr Richie Jones, 24 Bro Rhiwen, Rhiwlas, a hefyd Mr Owen Roberts a'r teulu ddiolch o galon i berthnasau a chyfeillion am eu geiriau o gysur, galwadau ffôn, llythrau rhy niferus i'w hateb, yn yr amgylchiad trist o golli priod a chwaer annwyl. Hefyd y gweinidogion a fu yn gwasanaethu, meddygon y Felinheli, meddygon a nyrsus Ward Aran, Ysbyty Gwynedd, a phawb a gyfranodd mor hael tuag at Apêl Sganiwr yr Ysbyty. Hefyd i Mr W Pritchard am drefnu'r angladd.

Dymuna Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen a'r teulu ddatgan eu diolch diffuant iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth arw o golli priod hoff a thad annwyl. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Donald a Nan, 2 Tai Gweledfa, ddiolch o galon i'w ffrindiau, cymdogion a'u teulu am y

llu anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu priodas arian. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Ceinwen Evans, 12 Hafod Oleu ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a chyfeillion am y llu cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn bedwar-ugain oed ar Fedi 23. Diolch i bawb.

Dymuna Mrs Elsie Davies, Wyn a Dilys, 1 Gwryfai Terrace, Clwt-y-Bont ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli priod a thad annwyl. Diolch yn arbennig i feddygon a staff Ysbyty Gwynedd am eu gofal diflino, a hefyd i'r Parch Trefor Lewis am ei garedigrwydd. Diolch yn fawr i bawb.

APÊL SGANIWR

Cynhelir Noson Goffi yn Ysgol Gwaun Gynfi ar nos Wener, 14eg o Dachwedd, i ddechrau am 7 o'r gloch.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

OSMOND SHAW DEINIOLEN

Gwerthu
a thrwsio
Teledu Lliw
Newydd ac Fel
Newydd
GWASANAETH
ATEB

FFÔN 24 AWR
LLANBERIS 870545

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati,

Peis, Rholiau Sosej,

Pasteiod, Teisennau Hufen,

Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

SEFYDLU CLWB BOWLIO
DEINIOLLEN

Nos Fercher, Hydref 22, fe gafwyd cyfarfod cyhoeddus i sefydlu pwyllgor i ddechrau y clwb bowlio. Cafwyd ymateb gweddol dda i'r cyfarfod.

Etholwyd Mr Huw Jones, 7 Tai Faenol yn Gadeirydd; Mr Barry Wardle, 76 Pentre Helen yn Ysgrifennydd a Mr Ieuan Parry, 42

Pentre Helen yn Drysorydd.

Gyda Mrs Lilian Jones, 11 Hafod Oleu; Rhianwen Jones, 20 Pentre Helen; Mrs Nellie Parry, 42 Pentre Helen; Cemlyn Thomas, 4 Dinorwic Terrace ac Ifor Phillips, 3 Y Bwthyn, ar y pwyllgor.

Bydd y Clwb yn cyfarfod bob dydd Sadwrn yn y Ganolfan rhwng 10 ac 1 o'r gloch. Beth am geisio eich llaw arni, bydd croeso cynnes i bawb.

BUDDUGWYR YR EISTEDDFOD



NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion

CYFARCHION: yr ardal i Mr a Mrs Owen Humphreys, "Gwastadnant" ar ddathlu eu priodas ruddem ar Hydref 12fed.

DYMUNIADAU GORAU i Jennifer ar ei swydd ddyddu gyntaf yn Ysgol Llanfawr, Caergybi.

LLONGYFARCHIADAU i Hefin

Williams ar ennill gradd M.A. ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'n fab i Mr a Mrs Noel Williams, 21 Eleanor Street, Caernarfon ac ŵyr i Mrs E Griffiths, Awelon, Nant Peris.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Welsby, 1 Rhes Glanrafon, ar enedigaeth merch fach, Stephany Louise, chwaer i David.

Cafwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch bendithiol iawn yn y capel a'r eglwys.

J.M. JONES
a'i FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU
DEINIOLLEN

(gyferbyn â'r Ysgol Gynradd)

Crefftwyr Gwaith Llaw Traddodiadol
Cerrig o Bob Math ar Gael

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

GWASANAETHAU NEWYDD

IEUAN
WILLIAMS
DEINIOLLEN

Bws 93 Caernarfon – Dinorwig

Llun i Sadwrn Dim ar wyliau cyhoeddus

	YSG	SG	AMR	SU
CAERNARFON	9.40	10.40	11.40	12.40
Maes Barcer Lon Eilian	9.45	10.45	11.45	12.45
Llanrug	9.55	10.55	11.55	12.55
Deiniolen Rhyd Fadog	10.10	11.10	12.10	1.10
DINORWIG	10.20	11.20	1.20	2.20

	YSG	SG	AMR	SU
DINORWIG	8.10	8.18	10.20	11.20
Deiniolen Rhyd Fadog	8.20	8.28	9.30	10.30
Llanrug	8.43	8.43	9.45	10.45
Maes Barcer Lon Eilian	8.53	8.53	9.55	10.55
CAERNARFON	8.58	8.58	10.00	11.00

	YSG	SG	AMR	SU
DINORWIG	3.50	5.40	6.30	7.00
Deiniolen Rhyd Fadog	3.55	5.45	6.35	7.05
Llanrug	4.05	5.55	6.45	7.15
Maes Barcer Lon Eilian	4.20	6.10	6.55	7.25
CAERNARFON	---	6.20	7.04	10.41

	YSG	SG	AMR	SU
CAERNARFON	2.20	3.14	3.15	4.30
Maes Barcer Lon Eilian	2.30	3.38	3.30	4.45
Llanrug	2.45	3.38	3.30	4.45
Deiniolen Rhyd Fadog	2.55	3.40	4.55	5.55
DINORWIG	3.00	3.50	3.45	5.00

Bws 77 Bangor – Dinorwig – Llanberis

Llun i Sadwrn Dim ar wyliau cyhoeddus

	YSG	SG	AMR	SU
LLANBERIS	8.16	10.35	2.20	5.00
Brynrefail	8.24	10.43	2.28	5.08
Dinorwig	7.50	9.50	12.50	3.00
DEINIOLLEN	7.20	8.00	8.30	10.00
Llanrug	---	10.45	2.30	5.10
Bethel Cysgr	---	10.50	2.35	5.15
Salon	---	10.55	2.40	5.20
RYWLAS	7.30	8.15	11.05	2.50
Pentir	7.35	8.20	11.10	2.55
Caerhun	7.40	8.25	11.15	3.00
Minfordd	7.45	8.30	11.20	3.05
Y Faeon	---	8.40	10.10	1.10
YSBETTY GWYNEDD	7.50	8.45	10.15	1.15
Coed Mawr	7.55	8.50	10.20	1.20
Maes Tryfan	8.00	8.55	10.25	1.25
BANGOR	8.00	8.45	9.50	10.25

	YSG	SG	AMR	SU
BANGOR	8.45	9.55	12.00	1.25
Maes Tryfan	8.50	10.00	12.05	1.30
Coed Mawr	---	10.00	12.05	1.30
YSBETTY GWYNEDD	---	10.05	12.10	1.35
Y Faeon	8.55	10.15	12.15	1.35
Minfordd	---	1.35	2.35	4.00
Caerhun	---	1.40	2.40	4.05
Pentir	---	1.45	2.45	4.10
RYWLAS	---	1.50	2.50	4.15
Salon	---	1.55	2.55	4.20
Bethel Cysgr	---	2.00	2.60	4.25
Llanrug	8.56	9.10	12.25	2.45
DEINIOLLEN	---	12.30	2.50	4.30
Dinorwig	---	12.35	2.55	4.35
Brynrefail	---	10.25	---	---
LLANBERIS	8.16	10.30	2.20	5.00

YSG – Dyddiau Ysgol

SX – Dim Dydd Sadwrn

SU – Sadwrn yn Unig

SG – Sadwrn a Gwyliau Ysgol

AMR – Gwasanaeth Crosville Cymru 83
via Bethel-Deiniolen

SYLWER:-

Yn wahanol i'r hyn a ddywedir yn y daflen a ddosbarthwyd i bob tŷ, Y MAE GWASANETH BWS GWYNEDD 77 8.16 o Lanberis a 9.50 o Dinorwig i Fangor yn rhedeg ar ddydd Sadwrn.

Am fwy o fanylion ffoniwch
LLANBERIS 870484

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr)

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Cychwynwyd ar dymor newydd arall yn hanes y Gymdeithas nos Lun, Hydref 27 pan gafwyd darlith ddiddorol tros ben gan Mr Dyfed Evans, Pencaenewydd, cyn ohebydd ar Y CYMRO, ar hanes bywyd y diweddar Bob Owen, Croesor. Llywydd y noson oedd Mr R Gwynn Davies, Bryn Eithin, a thalwyd y diolchiadau gan Mr Gwilym O Williams, Bodhyfryd, sydd yn hannu o deulu Bob Owen. Da gweld fod y Gymdeithas mor boblogaidd y tymor hwn eto. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan nos Lun Tachwedd 17 pan y bydd Mr Rol Williams yn rhoi sgwrs, gyda sleidiau, ar hanes sefydlu cwmni rheilffordd yr Wyddfa. Llywydd y noson fydd Mr Robert ap Wyn Williams, Tegannedd.

NOSON LAWEN: Nos Wener, Tachwedd 21 cynhelir Noson Lawen yn y Ganolfan er budd y Clwb Chwaraeon. Cymerir rhan gan barti merched Clychau'r Grug o Lanrug a'r Cylch, dan arweiniad Mrs Glenys Griffith; Ffion Williams, Llanrug; y dewinwr hynod o Fangor, Robert Jones sydd a'i deulu yn hannu o'r Fachwen, ynghyd â rhai doniau lleol gan gynnwys Meira C. Turner. Cyfeilydd y noson fydd Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail. Yn anffodus oherwydd gwaieidd nid yw'n bosibl i J R Williams, Mochdre fod yn bresennol. Bydd tocynnau ar werth yn yr ardal yn ystod y dyddiau nesaf. Gobeithir cael cefnogaeth yr ardalwyr i noson fydd yn siŵr o fod yn llawn hwyl a diddanwch.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR: Mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned penderfynwyd galw ar unigolion a chymdeithasau'r pentref i gyfrannu tuag at apêl Eisteddfod Bro Madog. Teimlad yr aelodau oedd fod y nôd o £1,000 a osodwyd i'r pentref yn llawer rhy uchel, yn enwedig o ystyried y galwadau parhaus a ddaw oddi wrth Apêl y Sganydd Corff am genfogaeth ariannol. Cyfeiriad Swyddfa'r Eisteddfod ym Mro Madog yw 7 Bank Place, Porthmadog, Gwynedd.

Penderfynodd y Cyngor hefyd y dylid llythyr â Gyngor Arfon i holi pa gymorth fedrai'r cyngor cymuned ei roi i ail blannu coed a faluriwyd gan storm yng Nghoedwig Cynant.

Penderfynwyd hefyd y dylid galw ar Gyngor Arfon i gadw toiledau cyhoeddus y pentref ar agor ar ddydd Sul, Hydref 26 pan fydd Marathon yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gwibio drwy'r pentref. Yn anffodus roedd drws trugaredd wedi ei gau i'r rhedwyr druain pan ddaeth y farathon ddwetha drwy'r pentref ar y

Saboth a bu'n rhaid i sawl darpar Guto Nyth Brân ffoi am ryddhad tua'r caeau!

Ni fydd y cyngor yn cyfrannu tuag at Apêl y Sganydd Corff gan mai teimlad yr aelodau oedd mai cyfrifoldeb y Llywodraeth oedd darparu gwasanaeth mor bwysig, ond mi fydd y cyngor yn cyfrannu tuag at gronfeydd ariannol tua dwsin o gymdeithasau lleol a chenedlaethol.

Datgelwyd yn y cyngor hefyd fod Cwmni Bysus Whiteways wedi colli'r gwasanaeth bysus gyda'r nos i Gwmni Crosville. Bydd Crosville yn rhedeg bysus chwe gwaith yr wythnos rhwng Beddgelert a Chaernarfon, ac felly'n cynyddu'r nifer o deithiau. Penderfynwyd llythyr â'r Comisiynydd Trafnidiaeth hefyd yn dilyn cwynion am y gwasanaeth bysus presennol.

Penderfynodd y cyngor hefyd y dylid cysylltu gyda'r meddygon lleol yn dilyn cwynion gan rai am ansawdd y dŵr yfed. Mae Dafydd Wigley AS wedi cysylltu gyda'r Awdurdod Dŵr ar ran y cyngor, yn dilyn ei ymweliad diweddar gyda'r Cyngor Cymuned.



Yng nghapel Bethel M.C., Dyserth, dydd Sadwrn, 18 Hydref 1986. priodwyd Delyth Angharad, merch Mr a Mrs Ednyfed Williams, Llyfni, Brondeg, Dyserth â Llion Gwynedd, mab Mr William Jones a Mrs Helen Jones, 7 Dôl Erddi, Waunfawr, Caernarfon.

(Llun: Sion Jones, Abergel)

YSBYTY: Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan, at Mr Gwilym Hughes, Tref Eilian, a Mr John Cotton, "Grug y Mynydd", sydd yn cwyno yn yr ysbyty.

Ond da yw cael croesawu gartref o'r ysbyty Capt Jackson, Trigfa, a Mrs Carys Jones, Morawel. Gobeithiwn eu bont yn parhau i wella.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cyfarfu cangen Waunfawr o Sefydliad y Merched yn Festri Capel Croesywaun nos Iau, Hydref 2, a darllenwyd y Llythyr Misol gan y Llywydd, Mrs Pat Parry. Tynnwyd sylw at y Gweithdy

Côr sydd i'w gynnal yn Ysgol Syr Hugh Owen Isaf ar y Sadwrn, Hydref 11, a mynegodd amryw o aelodau eu hawydd i fynd yno. Cyfeiriwyd hefyd at y dosbarthiadau nofio a chystadleuaeth Darts. Gwnaed trefniadau terfynol gogyfer noson y Gymdeithas Cynnyrch yng Nghanolfan Waunfawr Hydref 3, gyda Sefydliad y Merched Waunfawr yn westeiwyr.

Etholwyd Mrs Pat Parry fel cynrychiolydd yng Nghyfarfod Cyngor y Sefydliad ym Methesda ar Hydref 31.

Y Gŵr Gwadd ar Hydref 2 oedd Mr Dafydd Price, Cyngor Cyffuriau Gwynedd, a siaradodd ar broblemau cymryd cyffuriau. Diolchwyd iddo gan Mrs Catherine Jones.

Enillwyd gwobr y raffl - rhoddedig gan Mrs Mary B Davies - gan Mrs Joan Yates.

Y gwesteion te oedd Mrs Morfa Evans a Mrs Overy.

CYMDEITHAS CYNNYRCH SEFYDLIAD Y MERCHED: Llongyfarchiadau i Mrs Morfa Evans, Mrs K Wynn Jones, Mrs Missen, Mrs Pat Parry a Mrs Smith a enillodd wobrau yn y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghanolfan Waunfawr, Hydref 3.

CLWB GWYRFAL: Treuliwyd brynhawn Iau, Hydref 9 gyda'r Parchedig Barry Thomas yn llywyddu a Mrs L. Jones, Goleufryn, yn gofalu am y rhaglen. Daeth nifer dda iawn o'r aelodau ynghyd i ddathlu 21ain pen-blwydd y clwb yng nghwmni y gŵr gwadd amryddawn, y Parchedig Emrys Edwards yn sôn am Benillion Telyn Cymru. Mrs Gillian Wyn a Mrs Eaglestone oedd yn gofalu am y te, a rhoddwyd yr anrheg arbennig gan Mrs Nesfield a Mrs L. Jones a'i enillodd. Diolchwyd yn gynnes iawn i'r gŵr gwadd gan Mrs Morgan Jones.

Cynhelir y cyfarfod nesaf, Hydref 23 a disgwylir PC Oscar Evans i annerch, un o hogia'r Waun ond yn byw ym Methel erbyn hyn.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Medi:

1. £40: Eurig Wyn, Y Frenni; 2. £25: Mrs M V Jones, Hafod y Coed; 3. £10: Mrs C Bracegirdle, 21 Tref Eilian.

LLONGYFARCHIADAU: I Hywel a Chris, Tŷ Capel Bethel, ar enedigaeth merch, Cathryn Sera.

I Eleri a Celyth, 9 Stâd Tŷ Hen, ar enedigaeth mab, brawd i Ffion.

I Glenda Edwards, "Anneddle", Bod Hyfryd, ar ei dyweddiad ac Arwel Owen o Rhostryfan.

I Llion Jones, Dol Erddi, ar ei briodas â Delyth o Dyserth.

I Mrs Elen Jones, "Eryri Wen", Bod Hyfryd, ar fod yn nain eto. Ganwyd merch, Medi Wyn i John a Liz ym Montnewydd, a merch, Angharad Wyn i Gerallt a Sian yn Y Groeslon.

ac i Huw Owen, "Noddfa" ar ei benodiad fel Prif Gogydd yn Ysbyty

Gwynedd.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs A Chadwick a Chris, Tan y Coed, yn eu profedigaeth o golli priod a thad, sef Mr Clifford Chadwick.

Hefyd â Mrs M Jones, "Shinfield", Stad Tŷ Hen, ar golli brawd yn Llwydlo.

Estynnwn ein cydymdeimlad tuag at deulu y diweddar Miss Dilys Pritchard, "Afallon", a fu farw yn sydyn iawn yn ei chartref.

LLONGYFARCHION: i Alun Williams, Bro Waun, ar ddod yn ail ar y ddeuawd gyda Humphrey Jones, Betws Garmon, yn Eisteddfod Melin y Coed ger Llanrwst. Cafodd Humphrey yr ail wobwr hefyd ar yr Emyrn Dôn ac Alun y drydedd wobwr. Daeth Meira Turner, Collfryn, yn ail ar y Brif Adroddiad a Margaret Owen, Bryn Gwylan yn 3ydd ar yr adrodd dros hanner cant. Yn Eisteddfod Llanrug enillodd Meira y wobwr gyntaf a chwpan ar y Brif Adroddiad, a'r ail wobwr yn Eisteddfod Bodffordd, Ynys Môn, lle cafodd Humphrey yr ail wobwr ar yr Unawd Gymraeg.

YR EISTEDDFOD: COFIWCH am yr Eisteddfod, Tachwedd 8, ac am y cyfle i gael paned!

DIOLCH: Dymuna teulu'r diweddar Miss Dilys Pritchard, "Afallon", ddiolch i'w ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r blodau ac am y geiriau caredig a dderbyniwyd. Hefyd, diolch i feddygon y teulu.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Medi:

1. Olwen Williams, Llidiart Wen; 2. Gwyn Davies, Bryn Eithin; 3. Jean Jones, Llwyn Onn.

LLONGYFARCHIADAU: I Mr a Mrs Tom Griffith, Tyn yr Onnen, ar fod yn daid a nain unwaith eto - ganwyd merch, Ceri, i Helen a Len.

I Rhian Williams, 2 Bro Waun, ar ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

BETWS GARMON

LLONGYFARCHIADAU i Michael a Delyth Bryn Tegid ar enedigaeth mab, Elgan. Dymuna Michael a Delyth, ddiolch yn fawr am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd.

DYMUNIADAU gorau i Peter, Val a Richard Davies, Castell Cidwm yn eu cartref newydd ym Mryn Gwyrfa, Allt Coed Mawr, a chroeso i'r teulu newydd i Gastell Cidwm, gobeithio y byddant yn hapus ac yn llwyddianus.

CYDYMDEIMLWN a theulu Caeau Gwynion, W.R. wedi colli cefnder.

DYMUNIADAU DA i Meirion y Llythyrdy yn ei gartref newydd ym Methel.

COFIWCH am y Noson Gymdeithasol yn Snowdon Ranger Tachwedd 4ydd, yr elw at y Sganiwr.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

GWLAU SENGL O £39 I FYNY
GWLAU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES' O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio Prynu o Batrymau?

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn

AR GAU
SUL,
MERCHER.

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH

WELDING & FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

EMYR JONES

PLYMAR
PEIRIANNYDD

GWRESOGI

GWAITH
INSIWLEIDDIO

44 Glanffynnon

LLANRUG
Caernarfon.

3513

Gwraig Tŷ yn yr Ardd

Dywedodd ffrind wrthyf y diwrnod o'r blaen, "Ydych chi 'rioed yn mynd i'r hen ardd yna yr adeg yma o'r flwyddyn?" Sylwch mai'r "hen ardd" fydd hi i bobol sydd ddim yn hoffi garddio. "Ydw, debyg iawn" oedd fy ateb. Mae yna lawer o bethau i'w gwneud hyd yn oed ym mis Tachwedd, ac yn aml iawn cawn ambell i ddiwrnod hyfryd yn y mis tywyll hwn.

Dal i dorri'r blodau sydd wedi darford - y mae'r Ffarwel Haf drosodd erbyn hyn. Yn y tŷ gwydr mae'r Blodau Mihangel, *Chrysanthemums* yn siriolu bywyd, a gobeithio y daliant i flodeuo hyd y Nadolig. Rhaid gofalu cau'r ffenestri yn y nos, ond rhoi digon o aer yn y dydd. Y mae gen i doriadau o Fynawyd y Bugail wedi gwreiddio a gan nad oes gwres yn y tŷ gwydr, rhaid dod â nhw i mewn i ddiddosrwydd y tŷ rhag y rhew. Bum yn ddigon gwirion llynedd i'w gadael yn y tŷ oer, a chollais y rhan fwyaf ohonynt, rhyw bedair a arbedwyd, ond o'r rheiny 'rwyf wedi cynyddu fy stoc. Mae rhywun yn dysgu yn yr ardd fel mewn bywyd yn gyffredinol, trwy gamgymeriadau. Y mae'r Cennin Pedr dan bridd, a'r Tiwlip *Tulips*. Cefais fylbiau *Hyacinths* yn anrheg yn ddiweddar a mae nhw mewn potiau o *Bulb Fibre* o dan y gwely yn y llofft bach. Rhaid cadw golwg arnynt rhag iddynt sychu, a dod a nhw i olau dydd yn raddol, a hei lwc na chaf flodau persawrus erbyn y Nadolig. Cefais gyngor gan arddwr i beidio a

gadael i'r potiau fod yn rhy wlyb, a'u troi ar eu hochrau rwan ac yn y man, i gael gwared o'r dŵr. Llaith ac nid gwlyb yw'r rheol.

Dyna rai o'r gorchwylion sydd yn mynd i'm cadw'n brysus.

Beth am rywbeth i'w fwyta? Mae'n beth da dod a gwreiddyn rhiwbob i'r tŷ gwydr, er mwyn cael rhiwbob cynnar, ac eleni fe roesom fefus mewn potiau a'u rhoi yn y tŷ gwydr, a chawsom gnwd da cynharach na'r rhai allan, heb y pla malwod sy'n gwledda ar y ffrwyth yn yr ardd.

Yr oeddw'n darllen yn y papur dyddiol yn ddiweddar am y llu o lyfrau Saesneg a gyhoeddir ar wahanol agweddau o arddio, e.e. Tyfu llwyni, Blodau parhaol, Rhosynau ac ati. Beth am i'n arbenigwyr gyhoeddi llyfrau cyffelyb yn Gymraeg?

Rhaid mynd i gadw'r rhaw a'r fforch a'r taclau i gyd, wedi eu hiro'n dda, a'u cadw hyd y Gwanwyn, a mwynhau darllen y catalogau lliwgar ac edrych ymlaen at arddio eto yn y Gwanwyn.

DIOLCHGARWCH YM METHEL



CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CROESO ADREF: Mae Mrs Annie Owen, "Homes", wedi dychwelyd adref o'r ysbyty. Da gweld eich bod yn well Anti Annie.


Da clywed fod Llinos a Rhian Roberts,

9 Bryn Gof, yn llawer gwell erbyn hyn, a bod eu brawd bach, Cefin, wedi cael dod adref atynt.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn â Mrs Williams, 'Tremallt', yn ei phrofedigaeth o golli brawd.

LLONGYFARCHIADAU: I Mr a Mrs Jones Bryn Banon, ar ddathlu eu Priodas Ruddem ar Hydref 23ain.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da

Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgerran (Portdinorwig 670726)

URDD: Erbyn hyn mae 77 o blant wedi ymuno â'r gangen. Yn y cyfarfod agoriadol, cafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni Selwyn Jones. Diolch - Non Ll. Jones. Yna cwis yng ngofal Dafydd Idriswyn. Y genethod a orfu o hanner marc! Diolch - Aled Griffiths.

O hyn i'r Nadolig trefnwyd gweithgareddau difyr pellach. Nos Fercher, Tachwedd 5ed bydd Noson Tân Gwylt ar dir y Neuadd yn agored i bawb. Pris mynediad fydd 50c ac am y tâl yma bydd pawb yn cael paned o gawl, ci poeth (hot dog) ac arddangosfa dân gwylt. Bydd croeso i rywun ddod â stwff i'w losgi i'r neuadd rhwng 5 a 6 a bydd y noson yn dechrau am 6. Bydd oren, criesion ac yn y blaen ar werth hefyd. Os bydd unigolion neu gymdeithasau yn dymuno gwneud cyfraniad at brynu tân gwylt, bydd Mrs Rita Williams, Tan y Cae yn fodlon eu derbyn.

Nos Lun, Rhagfyr 22 bydd plant yr Urdd a Chôr Bethel yn mynd o amgylch y pentref i ganu carolau gyda'r casgliad ym mynd at apêl y sganiwr.

DIOLCH: Dymuna plant y Cylch Meithrin ddiolch yn fawr i Glwb y Mamau am y danteithion ac i bawb arall am roddion o deganau a phapur a dderbyniwyd yn ddiweddar. Mae cardiau Nadolig y Mudiad ar werth - RW neu Eluned Davies

LLONGYFARCHIADAU i Enid Price, Llys Gwynt, Seion ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Hydref 6ed. Dymuniadau gorau hefyd i Dianne Thomas, Llys Derfel, fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 ar 17eg o Dachwedd ac i Ceinwen Parry, Waen Deg, a Judith Owen, 10 Rhoslan fydd yn dathlu ar 19eg a'r 29ain o'r mis.

Y NEUADD GOFFA: Ar 29ain o Fedi fe benododd y Pwyllgor Mrs K Williams, 2 Rhos Alun fel gofalwr i'r Neuadd. Dylai pawb sydd am ddefnyddio'r Neuadd ei harchebu drwy Mrs Olwen Williams, 9 Stâd Eryri (Portdinorwig 671110) Gofyna'r pwyllgor i bawb sy'n defnyddio'r Neuadd, os buasent mor garedig, a'i gadael mewn cyflwr glan a thaclus. Diolch yn fawr.

Derbyniwyd rhodd o 40 o gwpannau gan Glwb y Mamau. Diolchir yn fawr i'r clwb am eu caredigrwydd a gobeithir y bydd y cwpannau yma yn cael mwy o barch na'r hen rai.

CLWB FFERMWYR IEUANC, CAERNARFON: Ail-ddechreuodd tymor y clwb ar nos Fawrth, Medi 23ain, pryd y cafwyd fideo gan weithiwr o MANWEB ynglŷn â thrydan mewn tai gwydr. Nos Fawrth, Medi 30ain, bu'r swyddogion ar gwrsg Ngwesty'r Fictoria, Llanberis.

Nos Fawrth, Hydref 7fed, cynhaliodd yr aelodau Noson Goffi yn Neuadd Bethel. Gwnaethpwyd elw o £86 ac fe'u rhennir rhwng cyfraniad y clwb at Gadair Eisteddfod Porthmadog a choffrau'r clwb. Enillwyr y raffl oedd:-

1. Flask: Nia Jones, Caeathro; 2. Voucher £2: Mrs A Hughes, Caernarfon; 3. Bocs o fiseddi: Ellen Hughes, Caernarfon; 4. Bocs o siocled: Hugh Parry, Caernarfon; 5. Talc: Mr Goronwy Jones, Bethel; 6. Dwsin o wyau: Ceryl Roberts, Bethel; 7. 4 Mwg: Michael Roberts, Bethel.

Enillydd dyfalu pwysau'r gacen oedd Mrs A M Williams, Bethel. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Geraint Hughes o Glwb Penmynydd, oedd yn y clwb nos Fawrth, Hydref 14eg yn dangos sleidiau ar ei ymweliad â Seland Newydd, bu yno o fis Awst 1985 i fis Mawrth 1986.

CLWB Y MAMAU: Cafwyd Ffair

Hydref lwyddiannus iawn yn y Neuadd nos Wener, Hydref 10fed a'r elw yn mynd tuag at Swper Nadolig i'r Henoed. Enillwyr y raffl oedd: Bocs o ffrwythau: Mrs A E Williams, 3 Cremlyn; Addurn Nadolig: Mrs Mary Evans, 7 Tan y Cae; Am ddyfalu faint o fotymau oedd mewn pot: Mrs Mary Griffiths, Tre Gof; Yn y gystadleuaeth tynnu llun o dan 11 oed, daeth 120 o luniau i law a mawr yw ein diolch i'r Ysgol Gynradd a'r Ysgol Feithrin am eu cefnogaeth. Yr enillwyr oedd:-

5-6 oed: 1. Meilyr Emrys; 2. Nia; 3. Llinos Mair ac Andrew. **Dosbarth S A Jones** 1. Delyth; 2. Nia a Christina; 3. Brian ac Aled. **Dosbarth 1** 1. David Jones, 2. Darren Jones, 3. Carwyn John Morris ag Eurig Druce. **Dosbarth 2 a 3** 1. Dafydd; 2. Sonia Lynn Roberts; 3. Gwenan Elis a Jodi Gurr. **Dosbarth 4** Ni wyddom enwau'r plant a enillodd ond mae'n wir eu bod yn gwybod pwy ydi pwy. 1. Ffrwffi; 2. Curly; 3. Biffo, Llew a Popping Candy.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

APÊL Y SGANER: Siomedig oedd y nifer a ddaeth i'r neuadd nos Wener, Hydref 17 i gyfarfod cyhoeddus i ystyried sefydlu pwyllgor lleol i gasglu arian at apêl y sganer ond er hynny dewiswyd swyddogion a chnewllyn o bwyllgor. Etholwyd Geraint Elis, Cilgerran yn Gadeirydd, Mrs Menna Davies, Trem Eryri yn ysgrifennydd a Mr Goronwy Jones, Glan Gors yn drysorydd.

Cafwyd anerchiad gan Miss Mary Richards, Cadeirydd Pwyllgor Arfon ynglŷn â'r apêl a dywedwyd wrthym mai £2700 oedd y nôd a osodwyd i Fethel, Llanddeiniolen a Seion. Eisoes roedd £823 wedi ei gyfrannu yn enw unigolion a mudiadau o'r ardal ac felly ychydig llai na £2000 fyddai yn rhaid ei gasglu o hyn i ddiwedd 1987.

Penderfynwyd cynnal cyfarfod cyhoeddus arall yn y Neuadd am 7.30 nos Wener, Tachwedd 14 i ystyried sut i gasglu'r arian ac erfynir am i griw da ddod ynghyd.

PLAID CYMRU: Nos Fawrth, Hydref 7fed ar noson oer niwlog, daeth nifer o gefnogwyr y Blaid i festri Cysegr i gyfarfod Mr Dafydd Wigley AS i ystyried ail-sefydlu cangen o'r Blaid yn y pentref. Pwysleisiodd Mr Wigley y pwysigrwydd o gael cangen ym mhob ardal i ddod a phroblemau lleol i'w sylw fel y gall weithredu'n effeithiol dros yr etholaeth.

Penderfynwyd rhannu'r pentref a chasglu tâl aelodaeth yn ystod y mis ac ail-gyfarfod yn y Neuadd am 7.30 nos Fercher, Tachwedd 19 i drefnu gweithgareddau am y tymor.

Estynnir croeso i aelodau hen a newydd i'r Neuadd ar Dachwedd 19.

DIOLCHGARWCH: Cafwyd cyfarfodydd Diolchgarwch llewyrchus iawn eto eleni yng nghapel ac eglwysi'r ardal. Ddydd Sul, Hydref 19 cynhaliodd yr Wyl ym Methel, ac yn y Cysegr cafwyd cyfarfod dan ofal y plant yn y bore, yr ieuenctid yn y pŵn ar oedolion yn y nos ar ddydd Llun, Hydref 20fed.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliodd cyfarfod Hydref yn yr Ysgol yng nghwmni Mrs McShane, Tanygrisiau. Testun ei sgwrs oedd "Pethau Bychain" a chafwyd noson ddifyr iawn yn ei chwmmi a phawb yn amlwg wedi ei mwynhau. Diolchwyd iddi gan Mrs Rita Williams. Y gwestwagedd oedd Mrs Glenys Griffiths, a Mrs Eirlys Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Eirlys Sharpe. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, Tachwedd 12 yn yr ysgol, yng nghwmni Miss Carol Price, Llys Gwynt pryd y cawn arddangosfa o goginio.

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YSGOL SUL BOSRA: Bu'r plant yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Cymdeithas y Beiblau a gynhaliwyd yn Eglwys Santes Helen, ar Fedi 7fed. Hanes y **Llaw** oedd ganddynt, h.y. fel y golyga pob bys wahanol fathau o bobl, o'r rhai agosaf at y galon at y lleiaf pwysig – sef ni ein hunain. Llongyfarchiadau i chi blant am wneud eich gwaith mor dda. Cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch fore Sul, Hydref 19 am 10 o'r gloch, y thema y tro hwn oedd Dwylo **Duw** a'n Dwylo **Ni**. Diolch i'r plant am ddysgu eu gwaith yn drwyadl ac i'r athrawon a fu'n eu hyfforddi.

EGLWYS SANTES HELEN: Yr oedd yr Eglwys dan ei sang 'bnawn Sul, Hydref 5, pryd y cynhaliwyd gwasanaeth Cymdeithas y Beiblau. Plant yr Eglwys a agorodd y gwasanaeth a diolch iddynt am wneud eu gwaith mor drefnus. Cafwyd cymanfa hwyliog gyda'r nos gyda chynulleidfa deilwng iawn. Cafwyd gwasanaethau diolchgarwch llewyrchus iawn ddydd Sul, Hydref 19, diolch i bawb fu'n addurno'r eglwys ac i bawb am eu rhoddion. Hydref 20fed am 6.30 cafwyd Ffair Hydref yn Neuadd yr Eglwys. Diolch i bawb fu'n helpu ac i bawb a gefnogodd.

APÊL SGANIWR YSBYTY GWYNEDD: Gosodwyd targed o £1,300 i bentref Penisarwaun tuag at yr apêl uchod gan y Pwyllgor Canolog. Ffurfiwyd Pwyllgor yn y pentref i godi'r swm yma. Y swyddogion yw, Llywydd – Mrs Pat Larsen, Trysorydd – Mr Leslie Larsen, a'r ysgrifennydd – Mr Leslie Jones.

Penderfynwyd gwneud apêl i bob cartref yn y plwyf am gyfraniadau, dosbarthwyd ffurflenni ac os ydych am gyfrannu a fuasech garediced â'i dychwelyd gyda'ch cyfraniad i Mr Leslie Larsen, Llygad yr Haul, cyn gynted â bo modd, os gwelwch yn dda.

Cofiwch, fe fydd y peiriant o fudd i **bob** arbenigaeth a **phob** grŵp oedran o'r ieuengaf i'r hynaf.

SGANIWRAMA: I gefnogi'r apêl uchod bu criw o ffyliaid o'r pentref ynghyd â chriw dawnus Clinic Llanbêr, yn cynnal noson o hwyl a chwerthin yn Ysgol Brynrefail, nos lau, Hydref 9, am 7.30pm Aphwy well i arwain y noson nag Arwel – ein hogyn Ni a Nhw ynte? Daeth cynulleidfa deilwng iawn i'n cefnogi, diolch i bob un ohonoch. Cafwyd anerchiad bwrpasol gan Dr Dan Huws a dymuna'r "Ffyliaid" ddiolch iddo am ei gyfraniad haelionus.

Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Huws gan Mrs Mary Davies. Diolchwyd i Arwel am lywio'r noson

mor fywiog a llwyddiannus, gan John Roberts, Bedw Gwynion. I bawb a gymerodd ran, a gyfrannodd ac a gefnogodd y cyngerdd, diolch yn fawr iawn ichwi. Do, fe wnaed elw o dros £400 – bydd £200 yn cel ei drosglwyddo i Gronfa Apêl y Sganiwr yma ym Mhenisarwaun. Diolch yn arbennig i Griw y Clinic am eu cydweithrediad.

TACHWEDD 8: Nos Sadwrn, Tachwedd 8 bydd criw y Sganiwr yma yn cyfarfod yng ngwesty "Padarn Lake" i weld fideo o'r cyngerdd – gobeithio y gall criw y Pentref a'r Clinic ddod i gyd, i ninnau gael eistedd yn ôl a chwerthin am ben ein hunain ynte?

O LAW I LAW: Bydd y bws yn cychwyn o King am 6.45, nos lau, Tachwedd 6ed. Pris y bws fydd 50c.

ADRAN BENTREF YR URDD: Cynhaliwyd pwyllgor yn yr ysgol a chytunwyd i ffurfio Adran Bentref eto eleni. Yr ysgrifenyddes yw Mrs Carolyn Roberts, y trysoryddion fydd Elinor Williams ac Elen Lewis, a chytunodd pob un oedd yn bresennol i gymryd ei dro fel arweinydd gyda Delyth Williams fel arweinydd swyddogol.

Trefnwyd rhaglen amrywiol a diddorol am y flwyddyn.

Bydd y cyfarfod cyntaf, nos Fawrth, Hydref 28ain am 6.00 yn yr ysgol. Croeso cynnes i unrhyw un o 7 i 15 oed. Tâl aelodaeth eleni yw £1.20 – am y flwyddyn. Cofiwch fe fydd creision a sudd oren ar gael am 15c.

TÂN GWYLLT: Y mae'r plant wedi bod yn brysyr yn torri a chario coed i wneud coelcerth yng nghae y pentref. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael i'r plant – ticedi 50c gan Mrs Gwenda Jones, Elin Thomas a Wendy Jones. Bydd cawl i'r oedolion, a bydd yr elw ac unrhyw roddion yn mynd eleni i'r Ysgol Feithrin.

LLONGYFARCHIADAU: i Fiona Jones ar gyrraedd ei deunaw oed.

Deallwn fod gennym adroddwr o fri yn ein mysg, sef Dafydd Jones, Bryntirion. Enillodd gwpan am adrodd o dan 6 oed yn Eisteddfod Bodffordd, dalied ati Dafydd!

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Mrs M Rees Thomas, Bodawen, a Mrs B E Hughes, Bryn Hyfryd, o golli nai a chefnider ym Mae Colwyn.

DIOLCH: Dymuna Fiona ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed.

Dymuna Gwenda a Victor Jones ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr N.S.P.C.C.

Dymuna Mrs Gwyneth Jones, 17

TAITH GERDDED YR URDD, GWYNEDD



Trefnwyd taith gerdded i ganghennau'r Urdd yng Ngwynedd fore Sadwrn, Hydref 11 yn ardal Llanberis. Daeth 18 o blant ynghyd â nifer dda o oedolion i groesffordd King am 10.30am. Cludwyd ni gan rieni ymroddgar y pentref i Gastell Bryn Bras ac oddi yno cafwyd taith gerdded fendigedig dros y Clegir – ni ellid dymuno gwell tywydd ar gyfer yr olygfa wefreiddiol o'n cwmpas. Wedi cyrraedd y Ganolfan bu criw Pensiaraun yn brysyr fel lladd nadroedd yn helpu i dorri a llenwi tua 300 o fara bach gyda selsig a sôs coch. Yr oedd llymaid o sudd oren oer yn dderbyniol iawn gan bawb. Bu'r daith yn un bleserus a chofiadwy iawn.

Bryntirion, ddiolch o galon i'w pherthnasau a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ddatlu ei phen-blwydd yn 60 oed.

CLWB YR HEULWEN: Bnawn Mawrth, Hydref 21, dechreuwyd gyda darlleniad o'r cofnodion. Cydymdeimlwyd â Mrs Rees Thomas a llongyfarchwyd Ffion a Derec ar enedigaeth Manon; Mrs Gwyneth Jones yn 60 oed; Mrs K Williams yn 75 oed a Fiona yn 18 oed. Rhoddwyd y te gan Mrs Nel Williams a Mrs Mary Davies. Enillwyd y raffl gan Mrs Eluned Porter. Diolchwyd am y te gan Mrs Evans. Arwel Jones oedd eu gwestai a threuliwyd un o'r pnauniaid difyrffaf yn gwrando arno yn sôn am Hiwmor a Dawn y Chwarelwyr. Dilchwyd iddo gan Mrs Nesta Jones. Bydd y cyfarfod nesaf Tachwedd 18.

GWELLA: Anfonwn ein cofion at bawb sy'n dioddef yn y pentref a dymunwn adferiad iechyd buan i chi.

CASGLIAD AT YR HENOED YNG NGWYNEDD: Gwnaed casgliad o £34.52 tuag at yr henoed – bydd Clwb yr Heulwen yn cael ei hanner, sef £17.26. Diolch i Jean Roberts, Elisabeth Jones ac Ann Ifans am gasglu.

CLWB CANT: Medi 26ain cafwyd Bingo yn Neuadd yr Eglwys am 6.30. Diolch i Helen am fod yn "alwr" ac i bawb a gyfrannodd at y noson.

Gweithgaredd mis Hydref fydd "Noson Calangaeaf" yn y Neuadd. Ceir cystadlaethau i wahanol oedranau – cystadleuaeth y wrach neu ysbryd gorau, y mwgwd gorau, yr ysgub orau, a.y.b. Y beirniad fydd

Anwen Jones.

Nos lau, Tachwedd 27, ceir noson ddifyr a hwyliog 'rwyn siwr gan Mr Eurus Jones, Camelot. Bydd yn dangos fideo o'r Carnifal.

Enillwyd Clwb Cant mis Medi oedd 1. Mrs Wood, Bryn Arthur, 2. Mrs Lewis, Llys y Gwynt, 3. Mrs Davidson, Tai Arthur

CYDNABOD CAREDIGRWYDD: Dymuna Siôn Rees Williams, Y Gors, Allt Riwth, ddiolch i gymdogion a chyfeillion am anrhegion a dymuniadau da, ar ei ymadawiad i astudio'r gyfraith yng ngholeg Huddersfield.

YSGOL FEITHRIN: Y mae'r Ysgol Feithrin wedi ail-gychwyn. Y mae croeso cynnes i unrhyw blentyn bach sydd o dan oedran ddechrau ysgol ymuno â ni yn Neuadd yr Eglwys.

YSGOL TAN-Y-COED: Croesawyd dau o blant bach newydd i'n plith, sef James a Malcolm Layland. Gobeithio y byddant yn hapus gyda ni. Gadawyd enwau Eleri Jones ac Andrea Paterson allan o'r rhestr o blant a dderbyniodd Dystysgrif Presenoldeb Llawn. Ymddiheurwn am hyn.

CYDYMDEIMLO: Ein cydymdeimlad llwyrâf â Ceren Jones, 4 Bryn Eglwys, o golli ei nain, ac i Dafydd Roberts, Pen Dinas Mawr o golli ei ewythr.

TRIP I GAER: Bydd trip i Gaer, Sadwrn, Tachwedd 29ain, yn cychwyn o King am 8.30 am. Pris £2.50 – enwau i Margaret Williams, Carrog, mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda: Llanberis 870716.

AM DDEWIS HAEL A
GWASANAETH CYFEILLGAR
DEWCH I

SIOP GRON
A SWYDDFA'R POST
PENISARWAUN

Ffôn:
Llanberis 871272

CANOLOG I'R FRO



am
Nenfydau Artex
cysylltwch ag
A. LEWIS

12 Lôn y Bryn,
Porthaethwy 712598

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

Gynted ag yr aeth Mr G Arfon Jones, Tan y Buarth Uchaf i gychwyn ar gwrs yn Sefydliad Amaethyddol Glynllifon, fe fu raid iddo fynd i Ysbyty Gwynedd am archwiliad meddygol. Fe'i danfonwyd adre'n ôl, ond ymhen ychydig ddyddiau fe'i hanfonwyd yn ôl gan ei feddyg, a'r tro hwn fe dderbyniodd driniaeth law-feddygol i gael torri allan "Appendix". Bellach mae adre'n ôl ac yn gwella'n araf, ond eithaf boddhaol.

Fe fu Mr Gwilym Davies, 1 Bro Elidir yn yr ysbyty hefyd ond daeth adre'n ôl.

I'r ysbyty y bu raid i Mrs John Roberts, 3 Maes Eilian fynd yn ogystal.

Dymunwn iddynt un ac oll wellhâd llwyr o'u hanwylderau.

WEA: Fe ddaeth tymor Mr Ifor Baines gyda'r WEA yn y Ganolfan i ben ar nos lau, Hydref 16 - tymor byr o bum noson yw hwn wrth gwrs.

DIOLCHGARWCH: Ar un adeg, roedd Cyrddau Diolchgarwch am y cynhaeaf yn ymestyn hyd ddydd Llun, ac oedfaon y Sul ran amlaf fel Sul cyffredin, ond mae'r mwyafrif o'r capeli yn y cylch hwn bellach yn cyfyngu'r Wyl i'r Sul yn unig. Fe orfodwyd hyn arnom rai blynyddoedd yn ôl gan amgylchiadau diwydiant yn yr ardaloedd.

Fe ddechreuodd yr Wyl yn St. Mair am 9.30 y bore, gyda'r plant wedi eu hyfforddi gan Mr Glyn Thomas, Bro Elidir yn cyfrannu at y gwasanaeth, a chyflwyno eu rhoddion, anfonwyd y ffrwythau i Gartref yr Henoed - Plas Pengwaith, Llanberis. Yr Athro G Lloyd Jones o Goleg yr Eglwys yng Nghymru ym Mangor a lywiau'r oedfa a gweinyddwyd y Cymun Bendigaidd.

Y Parch K E Francis, Cricieth a chyn-ficer Beddgelert cyn ymddeol a ofalai am yr hwyrol weddi am 4.45, ac roedd yn hael ei ganmoliaeth i'r dewisiad o Emyrn-donau. Yr oedd wedi mwynhau yr ymweliad.

Nid oedd gan gapel 'Dinorwig' (MC) neb i wasanaethu yn y pulpud, felly oedfa gwrdd gweddi am 2 o'r gloch yn unig oedd yno. Roedd pen trymaf y gwaith ar ysgwyddau'r plant.

Fe gafwyd dwy oedfa yn 'Sardis' (B). Roedd y chwaer Ellen Wyn Jones, Ty'n Fawnog wedi trefnu oedfa ddiddorol iawn i'r plant a rhai oedolion sy'n ffyddlon i'r Ysgol Sul. Am 2 o'r gloch yr oedd hon. Fe ail gynullwyd am 5.30 i oedfa gymundeb dan arweiniad y gweinidog, y Parch Ifor Lloyd Williams, B.A., Bangor, ac roedd cyfeillion ein chwaer Eglwys,

'Libanus' Clwt-y-Bont yn cyd-addoli â ni heno. Yn ffodus fe fu'r tywydd yn weddol ffafriol er bod lliw yr eira bellach ar gopa'r Wyddfa.

Ar Sul, Hydref 5ed tro St. Helen, Pensiarnau oedd hii fod yn westai'r Feibl Gymdeithas eleni. Cwrdd arferol y plant a gafwyd y pnawn a chymanfa ganu yr hwyr. Fe arweiniwyd y canu gan Mr David Wyn Williams, Deiniolen.

DIOLCH: Dymuna'r cyfaill Gwilym Irfon Jones, Tan y Buarth Uchaf, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am gardiau, rhoddion a phob caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd dan driniaeth law-feddygol ac ar ôl dod adre'n ôl. Fe dderbyniodd roddion yn ogystal pan aeth i Goleg Glynllifon. Diolch yn fawr.

DYMUNIADAU DA i Mrs Annie Jones, 5 Maes Eilian, ar ei phen-blwydd. Hi yw 'Modryb Annie' ein rhes ni, a'n brenhines ni ym Maes Eilian.

Cyn ysgrifennu nodiadau fel hyn fe fum am wythnos o wyliau - yr eildro eleni - yn Nwyrain Canoldir Lloegr, a chanfod bod rhai pethau wedi digwydd tra bum i ffwrdd. Fe gefais sgwrs ddifyr â'r cyfaill Mr W R P George yn yr 'ystafell ddisgwyl' yng Ngorsaf Bangor - ef yn myned am bythefnos o wyliau i Madeira.

Wedi i ni gyrraedd adre'n ôl roedd hi'n flin gennym glywed am farwolaeth Mr Thomas John Jones, 59 Y Glyn, Caernarfon - un a fu'n byw unwaith yn Rhif 4, Maes Eilian, ac fe'i claddwyd ym Mynwent Llanbeblig, Caernarfon.

Rhaid hefyd cydymdeimlo â Mrs Katie Lloyd Hughes a David, 3 Maes Eilian o golli Mr David Davies, Rhesdai Gwyrfa, Clwt-y-Bont, ef yn frawd-yng-nghyfraith i Mrs Hughes.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mrs A Jones, 5 Maes Eilian i ni ddiolch o galon ar ei rhan i'w theulu, ei chymdogion a nifer fawr o gyfeillion am y llun mawr o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 84 yn ddiweddar.

Dymuna Beti, 7 Maes Eilian, hithau ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, cymdogion a ffrindiau lu am y cardiau, blodau a rhoddion a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth law-feddygol i'w llygad, gyda diolch arbennig i staff a meddygon Ward Tudno.

Mae Mrs Sarah Anderson, "Pen yr Allt", Fachwen yn dymuno i ni ddiolch ar ei rhan am y gefnogaeth hael iawn a roddwyd i'r te a'r gwerthiant a gafwyd yn ddiweddar

yn y "Ganolfan" er budd Mudiad ULPAN yn yr ardal i gynorthwyo y plant Saesneg ieuengaf i ddysgu Cymraeg, ac i ymuno yn holl

weithgareddau'r ardal. Fe wnaed elw o £60.00 o'r ymdrech hon - ymateb godidog yn wir.

SGANIWRAMA!



"Am fwy o hanes y noson gweler dan newyddion Pensiarnau."



BEIRNIADAETH CYSTADLEUAETH LLINELL GOLL SGANIWRAMA

Dyma'r pennill a osodwyd i'w gwblhau:
At y Doctor yr aeth Iolo
Poenau enbyd yn i fol o
Meddai'r Doctor wrtho'n swta

Nifer dda yn cystadlu. Diolch iddyn nhw am gymryd diddordeb ym mhroblemau Iolo. Y mwyafrif yn rhoi cyngor beth i'w fwyta a beth i beidio'i fwyta. Druan o Iolo ddwedwn i. Roedd *asipheta* yn ffefryn i roi meddyginiaeth iddo - odl hwylus.

Amryw yn rhoi cyngor iddo gael 'madael â'r gwynt sy'n cynhyrfu ac yn corddi ei gylla. Nid gwynt, gyda llaw yw'r union air a ddefnyddir, ac mae'n debygol y byddai rhai o ddarlennwyr yr Eco yn rhoi *sgrech* pe dyfynwyd rhai o'r llinellau hyn. O bosib byddai rhifynnau'r dyfodol o dan sensoriaeth yn ogystal.

Y gamp mewn cystadleuaeth o'r natur yma ydi taro ar syniad nad oes neb arall wedi meddwl amdano. Roedd mwy na thri chwarter y llinellau yn odli â'r gair *bwyta* neu *asipheta*.

Dyma'r goreuon

"Castar oil yw'r ciwar gora."

"Rhostia'r cyw na'n iawn tro nesa."

"Llai o chips a coco cola."

"Dy dwn di gâl babi nesa."

Dyma ddau gynnig mwy difrifol - 'does dim fel amrywiaeth mewn cystadleuaeth mor bwysig.

"Dos at Mari i gael mwythia."

"Atgoffa'r wraig i brynu bloda."

"Nyrs Rhosgadfan" dyna'r ffugenw yn dweud hyn

"Mae dy beipen di'n rhy gwta"

rhydd i bawb ei farn a'i ddychymyg wrth gwrs gyda'r beipen.

Loo Blue;

"Enima yw'r fflisig gora"

Lemon:

"Dos o ffigs wna les i'th gylla"

Pwy oedd y Doctor dwyieithog a awgrymodd hyn ys gwn i!

"No more sex tan flwyddyn nesa."

Petai o'n Gymro pur fo fyddai'n ennill.

Ond am y tro *Maffia* sy ar y blaen gan ei fod yntau ar yr un trywydd â'r doctor dwy-ieithog.

"Llai o ferched sgertiau cwta."

Cyngor da iawn ddwedwn i - y £100 i *Maffia*!

Diolch i Selwyn Griffith am osod ac am feirniadu'r gystadleuaeth hon. Ni chyflwynwyd y llinellau 'sgrechlyd' i'r golygyddion, ac felly ni allwn benderfynu a oedd angen sensro a'i peidio. A fyddai 'Maffia' garediced ag anfon ei enw neu ei henw i' un o'r golygyddion er mwyn cael cyhoeddi i'r byd pwy sy' a'i meddwl neu ei feddwl ar sgertiau cwta! Gyda llaw, does dim £100 o wobrr!! (Gol.)

Dymuna

M. Rowlands

Gwaith Cerrig Beddau

Y Sgwâr, Llanrug

ddiolch i bobl bro Eco'r Wyddfa am eu cefnogaeth yn ystod ein 3 blynedd yn yr ardal

Ein cyfeiriad newydd yw;
BRYNDU, RHOSGOCH AMLWCH
Ffôn: Amlwch 830445

TAC SIS

AMBERLINE

UNRHYW AMSER-UNRHYW BELLTER

Ffôn 670555

LLYFRAU NEWYDD CYMRAEG

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau lleol.

BLAS BYW

Arian Byw, £3.00

Llyfr rysetiau Arian Byw

DAVIES, Thomas (Cyf)

Rheolau Rygbi

Undeb Rygbi Cymru £1.00

Llyfryn sy'n nodi rheolau'r gêm.

EVANS, Emrys

Dafydd ap Siencyn a'r Gwŷr Mud

Gwasg Carreg Gwalch £1.75

Rhif 8 yng Nghyfres Dafydd ap Siencyn

GRUFFYDD, Robat

Y Llosgi

Y Lolfa £3.95

Nofel

GRUFFYDD, W.J.

Meddylu: Atgofion Archesgob

Gwasg Gomer £2.75

Cyrol o atgofion yr Archdderwydd Elerydd

HUGHES, Mair Wynn

Angharad

Gwasg Gomer (C.B.A.C.) £2.75

Nofel ar gyfer ieuencid yn eu harddegau

HYWYN, Gwenno (Gol)

Ar Draws ac ar Hyd

Gwasg Gwynedd £2.75

Hunangofiant John Gwilym Jones.

JEFFREY, Peter

Pob Peth yn Newydd

Gwasg Efengylaidd Cymru 95c

YN FY FFORDD FY HUN



Llyfryn sy'n cynnig cymorth i'r rhai sy'n dechrau ar y bywyd Cristnogol.

JONES, Dic

Sgubo'r Storws

Gwasg Gomer £2.25

Cyrol o gerddi.

JONES, Lyn

GRAVELL, Ray

Grav

Gwasg Gomer £3.95

Cyrol o atgofion Ray Gravel.

JONES, T. Llew

Berw Gwyllt yn Abergweun

Gwasg Carreg Gwalch £1.20

Hanes rhyfedd glaniad y Ffrancod yn Abergwaun ym 1797. Y llyfryn cyntaf yn y gyfres "Llyfrynau Llafar Gwlad".

ROBERTS, Emrys

Yr Angel Gwyllt a Storiâu Eraill

Cyhoeddiadau Mei £2.00

Casgliad o storiâu byrion ar gyfer plant 10-12 oed.

WILLIAMS, R. Bryn

Cerddi Hydref

Cyhoeddiadau Barddas £2.00

Casgliad olaf y diweddard R. Bryn Williams o gerddi.

WILLIAMS, Robin

Hoelion Wyth

Gwasg Gomer £3.50

Cyrol o ysgrifau difyr.

ATODIAD BETHEL

PASIAANT Y CYSEGR: Wedi llwyddiant pasiant Ysgol Sul y Cysegr llynedd, mae Mr Williams yn brysur yn cwblhau ysgrifennu pasiant eleni. Bydd yr ymarfer yn Theatr Seilo ar Ragfyr 18 a'r perfformiad, fydd yn agored i'r cyhoedd at Ragfyr 19.

Dyma'r gyfrol gyntaf o hunangofiant John Elwyn Jones, awdur 'Pum Cynnig i Gymro', ac sydd bellach wedi ymgartrefu yn y Waunfawr. Disgrifir y gyfrol fel 'Hunangofiant Dyn Byrbwyll', ac yn sicr, mae'r darlennydd yn cael ei gipio o frawddeg i frawddeg, o baragraff i baragraff ac o bennod i bennod heb roi iddo'r cyfle i gymryd ei wynt nac i lyncu ei boer! Cyfrol yw hon sy'n carlamu mynd; y dweud yn fywiog a gafaalgarg, a'r llyfr yn frith o gymeriadau; llawer ohonynt yn 'cameos' bychan. Er mai hunangofiant yw'r disgrifiad o'r llyfr, eto'i gyd mae'n darllen yn debycach i stori antur, a'r awdur yn 'byw' ei hanes o gyfnodau fel gwas fferm yng Nghymru a Lloegr i fywyd yn y Fyddin a'i gael ei hun yn swyddog yn erlyn aelodau o'r S.S. yn yr Almaen ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd.

Ond er canmol y dweud gafaalgarg a'r stori garlamus, eto'i gyd, ni fydd y llyfr yn apelio at bawb. Os ydych yn hoffi arwr sy'n llorio pob gwrthwynebwr a'i ddyrnau neu'n llithro allan o drybini oherwydd ei 'gift of the gab' chwedl y Sais - ond hynny mewn sawl iaith! - yna, dyma'r llyfr i chwi. Mae'n froliwr heb ei ail; ond mae'n siŵr fod ganddo lawer i frolio amdano. Mae

wrth ei fodd yn adrodd sut y cafodd y llaw uchaf ar y Saeson a ddaeth ar ei draws - unai'n weision neu'n feistri fferm, yn filwyr neu'n uwch-swyddogion o'r Fyddin.

Yn y rhagair gan Nesta Wyn Jones, dywedir fod llawer o drafferthion wedi bod yn penderfynu beth i'w adael allan o'r gyfrol - "tocio, torri at yr asgwrn, nes nad oedd modd hepgor mwy". Ond teimlaf ambell dro fod pethau pwysig wedi eu hepgor. Yn y bennod 'Canlyn y Wedd', ceir hanes y bywyd eithriadol o hapus a dreuliodd ar fferm yn Nyffryn Conwy: "Bum flwyddyn ... ar y ffarm honno, ac mae'n debyg y byddwn wedi aros yno oni bai am ddigwyddiad eithriadol o drist." Yn y llinell nesaf mae'n gweithio ar stad o dai yn Nolgellau, ac ni cheir gair o eglurhad am y digwyddiad trist! Teimlaf fod y stori wedi carlamu cymaint nes neidio dros lawer o ddigwyddiadau. Byddai'n well bod wedi peidio a'u crybwyll o gwbl na bras-gyffwrdd a hwy.

Cyhoeddir y llyfr gan Wasg Carreg Gwalch am bris o £3.25 - sy'n fargen am gymaint o anturiaethau wedi eu gwasgu i un gyfrol. Bydd ail gyfrol y 'Dyn Byrbwyll' yn cael ei chyhoeddi erbyn y Nadolig.

CESTYLL GWYNEDD

Mae hwn yn llyfr pwysig a diddorol sy'n ymdrin ag agwedd allweddol ar hanes Cymru yn Gymraeg. Mae'n cyfuno ysgolheictod o radd uchel â thestun eglur a darluniau deniadol, yn ffotograffau, darluniau cyfoes ac adluniadau modern ar sail gwybodaeth archaeolegol ac ymchwil diweddard.

Cynlluniwyd y llyfr i gyfarwyddo'r ymwelwyr o Gymry a ddaw i'r henebion hyn - henebion sy'n elfen ddramatig a chyffrous yn nhreftadaeth Gwynedd a Chymru gyfan. Gobeithio y gwelir mwy o bobl Gwynedd yn manteisio ar y cyfoeth hanesyddol sydd ganddynt ar garreg y drws. Bydd "Cestyll Gwynedd" yn gymorth mawr i'r perwyl hwnnw.

Mae gan y llyfr bosibiliadau addysgiadol amlwg hefyd. Mae'n rhoi'r sylw dyladwy i gestyll tywysogion Gwynedd yn ogystal ag i'r cestyll Edwardaidd. Dyma ffynhonnell gryno o wybodaeth ddiweddard yn Gymraeg ar gyfer athrawon sy'n llunio gwersi a defnyddiau ynglŷn â'r cestyll ar gyfer eu dosbarthiadau. Gall

disgyblion ei ddefnyddio hefyd i'w cynorthwyo gyda chywaith neu waith cwrs yn yr ysgolion uwchradd. Byddai o fudd mawr i ddisgyblion a myfyrwyr yn gwneud cyrsiau arholiadol mewn ysgol neu goleg ynglŷn â'r Oesoedd Canol yng Nghymru.

Pris y llyfr yw £1.50 ond cynigir 50c o ostyngiad ar bob copi. Telir cludiant ar archebion o ddeg neu fwy o gopiau, a rhoddir un copi ychwanegol am ddim gyda'r archebion hynny.

Os oes unrhyw un â diddordeb gellir cysylltu â

"Cadw"

Tŷ Brunel,

2 Ffordd Fitzalan,

CAERDYDD CF2 1UY

YN EISIAU ... TREFNYDD HYSBYSEBION ECO'R WYDDFA

Cyfle diddorol i ddod i adnabod busnesau'r fro.

Cysyllter â'r Golygydd - Caernarfon 3515 neu'r Trefnydd presennol - Caernarfon 5605.



TAC SIS WEBB

Ffôn:
Llanberis

870145

Gwasanaeth 24 awr - pell ac agos
Gwasanaeth Maes Awyr
a Phorthladd
Gwaith Contract

YN AGOR YN FUAN ...

CARTREF HENOED Y FOELAS LLANRUG

Am fwy o fanylion cysylltwch â
MEIRWEN THOMAS, CAERNARFON 4652

Dyddiadur y Mis

Sadwrn 1: Bethel: Eisteddfod
Llun 3: Deiniolen: Sefydliad y Merched
Mawrth 4: Llanrug: Y Gymdeithas Undebol.
Mercher 5: Bethel: Yr Urdd – Noson Tân Gwyllt.
 Brynrefail: Noson Tân Gwyllt yn y Cae Chwarae.
 Waunfawr: Noson Guto Ffowc.
 Cwm y Glo: Clwb y Mamau.
Iau 6: Deiniolen: Cymdeithas Undebol y Chwirydd am 7.00
 Llanrug: Cymdeithas Chwirydd Capel Mawr.
 Waunfawr: Sefydliad y Merched.
Gwener 7: Yr Ardal: Clwb Eryri – Sgwrs gan Mr Rol Williams, Waunfawr.
 Llanberis: 'Ffair Gaeaf' er budd Ysgol Dolbadarn am 7.00
 Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00

Sadwrn 8: Waunfawr: Eisteddfod.
Mawrth 11: Llanrug: Merched y Wawr – Sgwrs gan Mrs Pat Jones.
Mercher 12: Bethel: Merched y Wawr – Arddangosfa Ceginio gan Miss Carol Price
 Llanrug a Waunfawr: Cangen Plaid Cymru – Darlith gan Dr Eirwyn Gwynn ar 'Pŵer Niwclear' am 7.30 yn Ysgol Gynradd, Llanrug.
Iau 13: Llanrug: Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr – Sgwrs gan Mrs M E Jones, Cricieth.
 Llanberis: Y Gymdeithas Lenyddol yn Ffestri Capel Coch am 7.00
Gwener 14: Llanberis: 'Bingo a Bwyd' yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30. Yr elw er budd Plant dan Anfantais Meddyliol, Cangen Treborth.
 Bethel: Cyfarfod Cyhoeddus y Sganiwr yn y Neuadd am 7.30
 Llanberis: Te yr Henoed.
 Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00
Sul 16: Yr Ardal: Gwasanaeth Sul yr Urdd yn Waunfawr.
Llun 17: Waunfawr: Y Gymdeithas Lenyddol – Sgwrs gan Mr Rol Williams ar sefydlu Cwmni

Rheilffordd yr Wyddfa.
Mawrth 18: Penisarwaun: Clwb yr Heulwen.
Mercher 19: Bethel: Cangen Plaid Cymru.
Iau 20: Yr Ardal: Eisteddfod Ysgol Brynrefail.
Gwener 21: Waunfawr: Noson Lawen yn y Ganolfan er budd y Clwb Chwaraeon.
 Llanberis: Ffair Nadolig Clwb yr Henoed.
 Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00
Iau 27: Penisarwaun: Y Clwb Cant – Mr Eurwyn Jones, Camelot yn dangos fideo o'r Carnifal.
 Llanrug: Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr – 'Hawl i Holi', Holwr – y Parch John Morris B.D.
 Llanberis: Sefydliad y Merched Waunfawr: Merched y Wawr.
Gwener 28: Llanberis: Te yr Henoed.
 Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00
Sadwrn 29: Bethel: Gwibdaith Clwb y Mamau i Gaer.

DYDDIADAU I'W COFIO
Rhagfyr 3: Cinio Nadolig Cangen

Plaid Cymru Llanrug yng Ngwesty Gwêl y Llyn, Llanberis.
Rhagfyr 4: Ffair Nadolig Chwirydd Capel Mawr
Rhagfyr 9: Cinio Nadolig Merched y Wawr, Llanrug yng Ngwesty Llyn Padarn, Llanberis.
Rhagfyr 18: Cinio Nadolig Sefydliad y Merched, Brynrefail, yng Ngwesty'r 'Prince of Wales', Caernarfon.

LLANBERIS (Atodiad)

P E N – B L W Y D D
HAPUS:Llongyfarchiadau i Anti Delia, Plas Tirion ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed ar Dachwedd 7fed. Pen-blwydd hapus iawn oddi wrth y plant i gyd. Diolch am bob dim.

FFAIR GAELF: Cynhelir Ffair Gaeaf yn Ysgol Dolbadarn, nos Wener, Tachwedd 7fed am 7 o'r gloch. Agorir gan y Cynghorydd Francis Jones, Y.H. (Cadeirydd y Rheolwyr). Bydd Sion Corn yno, stondinau o bob math, rafflau, lluniaeth, etc. Byddai'r ysgol yn falch iawn o unrhyw gyfraniad, ac o'ch cefnogaeth. Dowch yn llw.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas



Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

MAE'R
SAMARIAID
 YN GWRANDO,
 YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

AD-DREFNU GWASANAETH BYSIAU – BWS GWYNEDD 88 BYSIAU KMP

O ddydd Llun, Hydref 27 bu ad-drefnu sylweddol ar y gwasanaeth bysiau. Yn sgil hyn caiff y cyhoedd drafaelio ar unrhyw fws y dymunant. Am y tro cyntaf gwelir bysus glas KMP yn cludo teithwyr rhwng Llanberis a Chaernarfon gan alw ym Mrynrefail, Cwmyglo a Llanrug. Bydd bws cyntaf y dydd yn gadael Llanberis am 7.30 yn y bore ac yna bob hanner awr hyd 9 o'r gloch – yna ar yr awr hyd 6 yr hwyr. Ond ar ddydd Gwener a Sadwrn bydd gwasanaeth bob hanner awr o 7.30 yn y bore hyd 6 yr hwyr. **BYDD TOCYN ARBENNIG I DEITHWYR SY'N TRAFaelio yn DDYDDIOL AM WYTHNOS AR FYSUS KMP A'I BRIS FYDD £3.** Bydd y bws yn galw yn y pentrefi cyfagos fel a ganlyn:-

Brynrefail – Amser gadael Llanberis +10 munud
Cwmyglo – Amser gadael Llanberis + 12 munud
Llanrug – Amser gadael Llanberis + 16 munud.

Bydd y bws yn gadael Caernarfon yn ôl i Lanberis "hanner awr wedi'r awr" o ddydd Llun hyd ddydd Iau, ac "ar yr awr" ar ddydd Gwener a Sadwrn. (Fe geir y manylion yn llawn ar yr amserlen swyddogol)

Prisiau tocynnau i Gaernarfon

	Yn ôl a blaen	Sengl	Plant
O			
Llanberis	£1.00	50c	50c
Brynrefail	80c	40c	40c
Cwmyglo	60c	30c	30c
Llanrug	50c	30c	30c

Os am wneud eich siwrne yn siwrne gwerth chweil;
 Ac os am eich cludo'n gysurus mewn steil
 I'r wlad neu i'r dref – gofalgwch da chi,
 Drafeilio bob amser ar fys KMP.

Mae cystadleuaeth yn iachus ond
 gall monopoli olygu prisiau uwch.
**"CEFNOGWCH KMP –
 Y BYSUS GLAS SY'N PLESIO"**

CHWARAEON

PYSGOTA

Daeth y tymor psygota i ben, a dyma'r adroddiad olaf am eleni. Daeth yn amlwg, o ystyried yr ymateb, fod cryn ddiddordeb yn adroddiadau misol Mr Hughes, ac nad oes prinder 'sgotwrs yn ein plith. Yn wir, codwyd awydd mewn llawer ohonom i flasu'r wefr o godi eog o'r Seiont - y flwyddyn nesaf efallai!

Diolch i ti Huw, a mawr hyderwn y byddi'n parhau a'th adroddiadau yn fuan ar ôl codi dy drwydded am y tymor nesaf.

Adroddiad H P Hughes

Ar ôl cyffro'r dal a nodwyd yn rhifyn Hydref, bu'n eithaf tawel ar y Seiont oherwydd y prinder dŵr a oedd yn rhwystro'r eogiaid, a ddisgwyliai yn y Fenai a Bae Caernarfon am y llifogydd sy'n angenrheidiol iddynt cyn ymlwybro i fyny'r afon. Fe ddaeth y glaw o'r diwedd, ond yn anffodus, nid cyn diwrnod ola'r tymor, sef Hydref 17eg.

Bu 'sgotwrs y Llyfnwy'n fwy

ffodus gan iddi lawio'n drwm ar brydiau yn yr ardal honno a hynny'n sicrhau'r cyflenwad o ddŵr. O ganlyniad cafwyd helpa dda, yn arbennig gan Norman Dooley o Gaernarfon a laniodd ddau eog, un yn 9 pwys a'r llall yn 7 pwys.

Daeth wythnosau olaf y tymor a'r cychod torgoch allan ar Lyn Padarn ond anghyson iawn fu'r dal, er, yn ôl pob sôn, fod pwysau'r rhai a godwyd ar gyfartaledd yn fwy nag arfer.

CLWB PÊL-DROED BETHEL

Tra'n ymfalchio yn natblygiadau a llwyddiant clybiau pêl-droed megis Llanberis a Llanrug, mae'n rhaid sylweddoli na all pawb fod yn geffyl blaen a bod timau canol a gwaelod y cynghreiriau yr un mor hanfodol er llwyddiant pêl-droed ar raddfa leol.

Gwaelod Cynghrair Sain, yn anffodus, yw sefyllfa tîm Bethel ar hyn o bryd. Ni ddaeth tîws o unrhyw fath i feddiant y clwb ers ei sefydlu saith neu wyth mlynedd yn ôl; a chan mai llwyddiant sy'n hybu cefnogaeth, digalon braidd yw'r argraff gyffredinol a geir o sgwrsio â rhai o'r ychydig sy'n ysgwyddo'r baich o redeg y tîm yn wythnosol.

Pump neu chwech yn unig fu'n eu gwyllo'n rhoi crasfa i ail dîm Gwalchmai yng Nghwpan Iau Gogledd Cymru y Sadwrn diwethaf, tra fod o leiaf hanner cant yn gwyllo ail dîm Llanrug yn yr un gwynt a glaw. A'i tîg y gymhariaeth? Nid yw'r Cae Sioe ym Methel fodfedd ymhellach o ganol y pentref nad yw Eithin Duon yn Llanrug, a hogia lleol, ar y cyfan sy'n cynrychioli'r ddau glwb. Mae pwyllgorau gweithgar yn gefn i glybiau Llanberis a Llanrug, noddwyr ganddynt i'w dilladu a gweithgareddau aml i godi arian. Deallaf mai llond dwrn yn unig yw'r rhai y gall tîm Bethel ddibynnu arnynt, a bod y rhai hynny'n mynd i'w pocedi eu hunain yn wythnosol er sicrhau parhâd. Nid fy lle i fel unigolyn, nac ychwaith yr Eco yw beirniadu unrhyw garfan o'r gymdeithas, ond ofnaf, os na ddaw mwy o'r pentrefwyr ymlaen i ysgwyddo'r baich nad oes dyfodol hir i glwb pêl-droed Bethel.

Richard Roberts, o Fethel yw'r rheolwr-chwaraewr. Mae Dic yn 37 oed bellach a phrofiad helaeth ganddo o gynrychioli timau megis Tref Caernarfon, Bethesda,

Llanberis a Llanrug ymysg eraill. Gwelir ei golli mewn mwy nag un ffordd yn yr wythnosau nesaf gan iddo dori ei goes y Sadwrn diwethaf yn erbyn Gwalchmai. Gwellhâd llwyr a buan i ti Dic. Ymhlith y rhai o arwyddwyd ganddynt mae Harold Owen, y capten, o Lanrug, fu ar un adeg yn cynrychioli'r Felinheli, Llangoed a Nefyn.

Nid oes profiad â thimau eraill gan y mwyafrif o'r gweddill, chwaraewyr sydd wedi bod yn ffyddlon i Fethel drwy eu gyrfa yw Andre Lambrecht, gynt o Lanberis ond o Fethel bellach; Andrew Hughes, hogyn o Fethel sy'n byw yng Nghaernarfon; Trefor Foulkes, Bethel; Gary Evans, Llanrug; Dewi Williams, Bethel; Dilwyn Hughes, Seion a Billy Farrell o Gaernarfon. O'r dre y daw Keith Harding hefyd a John Pritchard; Dylan Williams o Lanberis; Steven a Chris Owen, y ddau o Lanrug. Hogia Bethel yw Emyr Roberts a Gareth Owen. Mae Jackie Smith ar y llyfrau hefyd, a phrofiad helaeth ganddo o chwarae a nifer mawr o glybiau'r ardal.



Dyma'r tîm fu'n fuddugol yn erbyn Gwalchmai y Sadwrn diwethaf. Mae Dic Roberts yn nghanol y rhes flaen.

PÊL-DROED

Cystadlaethau Cwpan fu'n mynd a bryd y timau lleol y Sadwrn diwethaf, ac eithro tîm cyntaf Llanrug, a bu'n ddiwrnod digon llwyddiannus.

Bu'n rhaid i dîm cyntaf Llanberis deithio i Gei Connah i gystadlu yno yn rownd gyntaf cwpan Barrit. Mae'r Cei ar hyn o bryd yn drydydd yng Nghynghrair Uchaf Clwyd, y Premier, ac efallai, o ystyried hynny, mai gêm gyfartal oedd y canlyniad gorau y gellid gobeithio amdano. Fel y digwyddodd, 'roedd Llanberis yn llawer cryfach na'r gwrthwynebwyr, a chaed canlyniad ardderchog o 2 gôl i 0; gyda Percy Allen a Derfel Roberts yn rhwydo.

Gohirwyd taith yr ail dîm i'r Parlwr Du, yn ail rownd Cwpan Iau Gogledd Cymru gan fod y cae yno o dan ddŵr; ond yn yr un gystadleuaeth llwyddodd ail dîm Llanrug i goncro Glantraeth o 5 gôl i 4 ar faes Eithin Duon. Gêm gyffrous oedd hon, a'r sgôr yn 4 yr un hyd nes i Alwyn Williams ei hennill gyda gôl fendigedig yn yr eiliadau olaf.

Bydd tîm Bethel yn yr het hefyd

ar gyfer y drydedd rownd, gan iddynt guro ail dîm Gwalchmai o 3 gôl i 1. Fe rwyddodd Jackie Smith o'r sbotyn. Harold Owen a Dic Roberts sgoriodd y ddwy arall cyn rhuthro Dic i'r ysbyty ac anafiadau i'w goes (gweler hanes tîm Bethel).

Aiff tîm cyntaf Llanrug o nerth i nerth yng Nghynghrair Gwynedd a'r Sadwrn diwethaf sicrhawyd eu hail fuddugoliaeth o'r tymor yn erbyn Llanerchymedd. John Williams a Dilwyn John Williams yn rhwydo a'r ynyswyr yn methu ag ymateb. Gydag 11 pwynt bellach allan o 12, mae'n anodd gweld neb yn eu dal os bydd iddynt barhau â'u safon uchel o bêl-droed. Mae'n bosibl mai o gyfeiriad Llanberis y daw'r bygythiad pennaf, gan eu bod hwythau â 5 pwynt o'r dair gêm a chwaraewyd. Mae cryn edrych ymlaen i'r gemau 'darbi'!!

ANRHEG O DDILLAD I DÎM PÊL-DROED LLANRUG



John Butterfield yn cyflwyno sanau a shorts i Tony Roberts, Cadeirydd Clwb Pêl-droed Llanrug.

RHEDEG MWY O LWYDDIANT I PAUL



Paul Grant o Lanrug a sefydlodd ddwy record athletau newydd yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar: 4m.36.1eil yn y 1500 metr a 4m.51eil yn y râs clwyd a ffôs.

PÊL-DROED YSGOL BRYNREFAIL

Yn yr ysgolion, ac yn nhimau iau pentrefi'r ardal mae meithrinfa ser pêl-droed y dyfodol, ac y mae lle i ddiolch i'r rhai prin hynny yn ein mysg sy'n barod i roi eu hamser a'u hegni yn goruchwyllo datblygiad yr ieuencid. Gobeithiwn gynnwys brasluniau o'r timau pentref hyn yn ystod y misoedd sydd i ddod, gan ddechrau'r mis hwn yn Ysgol Brynrefail.

Dic Parry yw pennaeth yr adran gyfrifol, gyda help parod nifer o'r athrawon eraill, am b7el-droed yr ysgol.

Ceisir trefnu gemau fel bod nifer helaeth o fechgyn o bob oed yn cael y cyfle i wisgo lliwiau'r ysgol, ac eisoes y tymor hwn cafwyd gemau oddi-cartref yn erbyn Dyffryn Nantlle, Llangefni a Thryfan. Fe ffurfiwyd timau o blith y bechgyn hyn, rhai dan 16eg, dan 15eg, dan 14eg, dan 13eg a dau dîm o gynrychiolwyr y flwyddyn gyntaf.

Siomedig fu'r canlyniadau ar y cyfan, gan i'r bechgyn hyn golli ddwywaith, a'r rhai dan 15eg a dan 13eg yn ennill un yr un. Colli a dod yn gyfartal wnaeth y tîm dan 14eg, a'r un modd dimau'r flwyddyn gyntaf. Llwyddodd y tîm dan 16eg i

Ymarfer Corff i fechgyn, ac ef sy'n ennill eu ffordd i rownd nesaf Cwpan Bryn Davies drwy guro Ysgol Tryfan o 5 gôl i 2.

B'nawn dydd Gwener, Hydref 10fed gwelwyd y mwyafrif o blant yr ysgol yn mwynhau eu huanin drwy gynrychioli eu tai mewn gemau Pêl-droed, Hoci a Phêl-rwyd. Ar ddiwedd y cystadlu brwd dyma sut y rhannwyd y pwyntiau.

Gwyrfaï - 120; Eryri - 92 a hanner; Eilian - 87 a hanner ac Elidir - 50.

Dewiswyd Dafydd Llywelyn Jones o Fethel yn aelod o garfan tîm dan 15eg oed Ysgolion Arfon, a bu'n aelod o'r tîm a drechodd Ysgolion Ardal Aberconwy o 5 gôl i 0 ar gae Ysgol Brynrefail, Da iawn Dafydd.

NOFIO

Anfonwyd nifer o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn ddiweddar i dreialon nofio Ysgolion Gwynedd, ardal Arfon ac Aberconwy. Ni fu ond un yn llwyddiannus, sef Aled Jones o Seion, a ddewiswyd i fynd ymlaen i ymgeisio am le yn nhîm Gwynedd drwy ddod yn ail yn y râs dull broga i fecngyn dan 15eg oed. Pob lwc i ti Aled.